Cadw Cymru'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu.
Keep Wales Safe. Keep Wales Learning.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais

© Hawlfraint y Goron Awst 2020
WG40971 ISBN digidol 978 1 80038 989 2

# Cynnwys

**Cyflwyniad** **2**

**Y cefndir deddfwriaethol** **5**

Y cwricwlwm sylfaenol 5

Addysg heblaw yn yr ysgol 5

Anghenion addysgol arbennig 5

**Paratoi dull gweithredu o fis Medi 2020** **7**

Canllawiau gweithredol 7

Canllawiau dysgu 15

**Paratoi ar gyfer cyfyngiadau symud pellach neu ddull dysgu cyfunol** **31**

Sicrhau parhad dysgu 32

Gweithio amlasiantaethol 34

Proses asesu statudol/adolygu blynyddol 34

Gweithio gyda rhieni/gofalwyr 35

**Atodiad: Recriwtio, adfer a chodi safonau – y rhaglen dysgu carlam** **36**

# Cyflwyniad

O ganlyniad i argyfwng y Coronafeirws (COVID-19) ni allai'r rhan fwyaf o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai o grwpiau agored i niwed a dan anfantais, fynd i'w man dysgu yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion a lleoliadau ar gau. Cafodd hyn effaith ar eu gallu i gael addysg a gwasanaethau eraill y byddent wedi eu cael fel arfer. Yn ystod yr argyfwng, mae'n glir bod nifer o ddysgwyr wedi dioddef effeithiau negyddol o ran eu lles a'u cynnydd wrth ddysgu, gyda rhai ohonynt yn dioddef yn ddifrifol. Er y gallai profiad rhai dysgwyr fod wedi bod yn gadarnhaol, mae tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys arolwg y Coronafeirws a Fi, yn awgrymu bod yr argyfwng wedi effeithio'n negyddol ar y rhan fwyaf o ddysgwyr, ac yn arbennig ar grwpiau sy'n agored i niwed a dan anfantais.

Mae awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau (sy'n cynnwys canolfannau dysgu a dysgu seiliedig ar waith), ynghyd ag ymarferwyr ac asiantaethau partner wedi dangos cadernid ac ystwythder wrth addasu'r gwasanaethau maent yn eu darparu i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd sy'n wynebu rhwystrau i'w dysgu yn ystod y cyfnod digynsail hwn. Yn yr un modd, mae llawer o rieni/gofalwyr a theuluoedd ledled Cymru wedi gorfod addasu'n gyflym a chydbwyso ffyrdd newydd o weithio wrth ddarparu gofal, cymorth ac addysg i'w plant. Mae Llywodraeth Cymru am gymeradwyo'r holl staff addysg, rhieni/gofalwyr a dysgwyr am addasu i'r heriau a gyflwynwyd yn sgil y coronafeirws.

Ers 29 Mehefin 2020, mae ysgolion a lleoliadau wedi bod yn cynyddu eu gweithrediadau ac yn croesawu dysgwyr yn ôl. Y ffocws oedd i ddysgwyr 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi', gan roi cyfle i leoliadau nodi anghenion dysgwyr unigol a chynllunio ffyrdd o'u cefnogi. Cymru yw'r unig ran o'r DU sydd wedi cynnig y cyfle hwn i'r holl ddysgwyr a oedd yn gallu manteisio arno (e.e. dysgwyr nad oeddent yn gwarchod eu hunain).

Ar 9 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y bydd ysgolion a lleoliadau yn dychwelyd i'w capasiti llawn o 1 Medi 2020 gyda dim ond elfen gyfyngedig o gadw pellter cymdeithasol o fewn grwpiau cyswllt. Cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y bydd tymor yr hydref yn dechrau ar 1 Medi 2020, a dylai ysgolion a lleoliadau a all ddarparu ar gyfer yr holl ddysgwr o ddechrau'r tymor fynd ati i wneud hynny. Bydd cyfnod pontio o bythefnos a disgwylir y bydd pob dysgwr yn ôl yn ei ysgol neu ei leoliad erbyn 14 Medi 2020 fan bellaf.

Amlinellodd y Gweinidog Addysg y cynllun i agor pob ysgol a lleoliad er mwyn i 100 y cant o ddysgwyr allu bod yn gorfforol bresennol ar safleoedd ysgolion, cyn belled â bod lefelau COVID-19 yn parhau i ostwng yn gyson yn y gymuned.

Roedd y Gweinidog yn glir y dylai pob ysgol barhau i fod yn 'ddiogel rhag COVID' – dylent fod wedi cynnal asesiadau risg a lliniaru'r risgiau gyda chyfuniad o fesurau rheoli yn unol â'r canllawiau gweithredol.

Ceir rhagor o wybodaeth am y trefniadau gweithredol ar gyfer pob lleoliad yn y Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref.

Mae'r canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais yn ategu'r canllawiau a geir yn y Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref a'r Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref, gan ddarparu cyngor penodol ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais. Felly, dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r fersiynau diweddaraf o'r canllawiau gweithredol a'r canllawiau dysgu. Bydd y canllawiau hyn yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais, lle y bo angen.

At ddiben y canllawiau hyn, mae diffiniad eang o ddysgwr sy'n agored i niwed a dan anfantais wedi'i fabwysiadu. Mae'n cynnwys dysgwyr sydd yn un neu fwy o'r grwpiau canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

- dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA)
- dysgwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sydd â Chymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol (CIY/SIY)
- plant sydd â phrofiad o ofal, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal
- dysgwyr sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)
- plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- gofalwyr ifanc
- plant sy'n wynebu risg o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod.

Ni fydd pob dysgwr o'r grwpiau hyn yn wynebu rhwystrau i ddysgu nac yn agored i dangyflawni. Gall dysgwyr o'r grwpiau hyn wynebu amrywiaeth o rwystrau i gyflawni eu potensial ac felly bydd angen dulliau gwahanol arnynt a chymorth penodol er mwyn diwallu eu holl anghenion unigol. Yn ogystal, gall dysgwyr berthyn i sawl un o'r grwpiau uchod ar yr un pryd, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau unigol.

Nid yw'r rhestr o grwpiau yn gynhwysfawr. Gellir ystyried bod dysgwyr nad ydynt yn y grwpiau hyn yn agored i niwed neu dan anfantais, gan gynnwys o ganlyniad i COVID-19 yn benodol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai dysgwyr, na fyddent wedi cael eu hystyried yn agored i niwed neu dan anfantais cyn COVID-19, pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol oherwydd eu profiad yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg sydd o gartrefi lle na chaiff y Gymraeg ei siarad, yn enwedig os ydynt yn wynebu rhwystrau eraill i ddysgu hefyd. Gall hyn fod yn wir i'r plant hynny nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf hefyd.

Rydym yn gwybod y bu effaith ar y mwyafrif helaeth o ddysgu dros y misoedd diwethaf, ac mae disgwyl y bu'r effaith yn fwy ar grwpiau agored i niwed neu ar grwpiau sydd dan anfantais. Mae effaith benodol hefyd ar y rhai a fydd yn ymgymryd â chymwysterau ffurfiol yn 2021 – y rhai hynny sy'n mynd i Flynyddoedd 11, 12 a 13. Mae hyn yn gysylltiedig â phryder na fydd y bobl ifanc hyn yn symud ymlaen i gyrchfan gadarnhaol mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £29 miliwn i 'recriwtio, adfer a chodi safonau', gan ddod ag athrawon i ysgolion a lleoliadau i ddarparu cymorth manwl â

phwyslais penodol ar gyfer y rhai sydd â heriau arbennig er mwyn iddynt allu cyflawni eu potensial (gweler yr Atodiad:  am grynodeb).

Bwriedir i'r canllawiau yn y ddogfen hon gefnogi ysgolion a lleoliadau i sicrhau eu bod yn defnyddio dull gweithredu cynhwysol wrth baratoi i weithredu'n llawn o fis Medi 2020. Er y bydd cymhwyso'r canllawiau o fudd i ddysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais yn arbennig, bydd yn sicrhau manteision y tu hwnt i'r grwpiau a restrir uchod, gan y bydd yr hyn sy'n gweithio i'n grwpiau agored i niwed a dan anfantais yn debygol o fod o fudd i'r holl ddysgwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr anawsterau sylweddol a wynebwyd gan awdurdodau lleol ac ysgolion a lleoliadau o ran darparu gwasanaethau a chyflawni eu dyletswyddau statudol, gan gynnwys mewn perthynas â dysgwyr sydd ag AAA a dysgwyr EOTAS, yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud.

Bydd angen i ysgolion a lleoliadau baratoi ar gyfer amrywiaeth o senarios yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf – gweithrediad llawn, dull cyfunol a chyfnod arall o gyfyngiadau symud yn genedlaethol neu'n lleol. Cydnabyddir y bydd heriau penodol wrth ymdrin â dysgu seiliedig ar waith a sicrhau bod dysgwyr sydd mewn gweithle ar gyfer profiad gwaith, neu leoliad gwaith, yn ddiogel ar bob adeg. Bydd cyfathrebu da â chyflogwyr, dysgwyr a'u teuluoedd yn hollbwysig.

Mae'r canllawiau hyn yn darparu cyngor ac yn gosod disgwyliadau mewn perthynas â chymorth i ddysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais ar gyfer amrywiaeth o senarios. Caiff y sefyllfa ei monitro'n agos wrth inni symud i flwyddyn academaidd 2020/21 a chaiff y canllawiau hyn eu diweddaru er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau yn ôl yr angen.

Os rhoddir cyfyngiadau symud ar waith eto, yn genedlaethol neu'n lleol, bydd yr angen i addasu dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas ag AAA yn cael ei ystyried unwaith eto. Hefyd, ystyrir cyflwyno canllawiau manwl mewn perthynas â chynnal asesiadau risg er mwyn cefnogi dysgwyr sydd ag AAA. Roedd gwaith ar y gyfres hon o fesurau wedi dechrau ymhell cyn i'r penderfyniad gael ei wneud i ddychwelyd i weithredu'n llawn ym mis Medi, a gwnaed gwaith ymgysylltu manwl ag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol. O ganlyniad, byddem yn disgwyl bod mewn sefyllfa i allu symud yn gyflym i roi set newydd o drefniadau ar waith petai angen.

At ddibenion y canllawiau hyn, mae'r term 'ysgolion a lleoliadau' yn cynnwys ysgolion a lleoliadau cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir yng Nghymru, yn ogystal ag unedau cyfeirio disgyblion.

Efallai y bydd ysgolion annibynnol a lleoliadau blynyddoedd cynnar nas cynhelir am ystyried agweddau ar y cyngor hwn sy'n berthnasol a/neu yn ddefnyddiol yn eu tyb nhw. Mae canllawiau ar wahân hefyd wedi cael eu cyhoeddi, neu ar fin cael eu cyhoeddi, ar gyfer y lleoliadau hyn.

# Y cefndir deddfwriaethol

## Y cwricwlwm sylfaenol

Ar 23 Mehefin 2020, fel rhan o Ddeddf y Coronafeirws 2020, cafodd gofynion cwricwlwm sylfaenol Cymru a'r trefniadau asesu cysylltiedig ar gyfer ysgolion a lleoliadau meithrin nas cynhelir eu hatal. Bwriad hyn oedd rhoi'r amser a'r hyblygrwydd i ysgolion a lleoliadau ymateb i bandemig COVID-19. Fel sy'n cael ei orchymyn o dan bwerau Deddf y Coronafeirws 2020, roedd yr hysbysiad yn berthnasol am gyfnod o fis rhwng 24 Mehefin a 23 Gorffennaf 2020.

Rydym hefyd yn gwybod bod angen i ysgolion a lleoliadau addasu eu dull o ddysgu yn ystod tymor yr hydref wrth iddynt ddelio ag amrywiaeth o heriau a byddwn yn ystyried hyn ym mhob penderfyniad. Bydd Llywodraeth Cymru yn egluro'r disgwyliadau o ran deddfwriaeth maes o law a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar anghenion a buddiannau dysgwyr yn y cyfnod unigryw hwn.

## Addysg heblaw yn yr ysgol

Mae cyfrifoldebau awdurdodau lleol mewn perthynas ag addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) yn parhau i fod mewn grym. Mae EOTAS yn ddarpariaeth addysg a ddyluniwyd i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr na allant, am ba reswm bynnag, fynychu ysgol brif ffrwd neu arbennig. Mae Adran 19(1) o Ddeddf Addysg 1996 yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i drefnu darpariaeth EOTAS:

> *Each local education authority shall make arrangements for the provision of suitable education at school or otherwise than at school for those children of compulsory age who, by reason of illness, exclusion from school or otherwise, may not for any period receive suitable education unless such arrangements are made for them.*

Mae Adran 19(6) o Ddeddf Addysg 1996 yn diffinio addysg addas mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc fel addysg effeithlon sy'n addas ar gyfer oedran, gallu a dawn y plentyn ac sy'n diwallu unrhyw anghenion addysgol arbennig a all fod ganddo.

Lle caiff addysg ei darparu drwy unedau cyfeirio disgyblion, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys, ynghyd ag addysg rhyw.

## Anghenion addysgol arbennig

Nid yw dyletswyddau statudol awdurdodau lleol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig (AAA) wedi cael eu haddasu mewn unrhyw ffordd. Mae dyletswyddau awdurdodau lleol sy'n deillio o Ddeddf Addysg 1996 a Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002 mewn grym o hyd, ac mae Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002 yn dal i fod yn gymwys. Mae'r Cod yn canolbwyntio ar ddileu rhwystrau i gyfranogiad a dysgu. Mae'n rhoi

cyngor ymarferol i awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, lleoliadau blynyddoedd cynnar ac eraill ar gyflawni eu dyletswyddau statudol i nodi ac asesu anghenion addysgol arbennig dysgwyr, a darparu ar eu cyfer.

# Paratoi dull gweithredu o fis Medi 2020

## Canllawiau gweithredol

Ceir canllawiau manwl ar gyfer pob ysgol a lleoliad mewn perthynas â'r trefniadau gweithredol y dylid eu hystyried yn gyffredinol ac sy'n gymwys i bob dysgwr o fis Medi 2020, yn nogfen Llywodraeth Cymru Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref. Mae'r canllawiau a roddir yn y ddogfen hon yn ategol a dylid darllen y ddwy ddogfen ochr yn ochr â'i gilydd. Mae'r adran hon yn ymwneud yn benodol â'r ystyriaethau ychwanegol sy'n berthnasol i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais.

### Presenoldeb

Bydd disgwyl i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai a fu'n gwarchod eu hunain yn flaenorol, ddechrau dychwelyd i'w ysgol neu ei leoliad o 1 Medi 2020. Ceir canllawiau manwl ar drefniadau presenoldeb, gan gynnwys sut i ddefnyddio codau presenoldeb, yn y Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref.

### Ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a'u cefnogi

Mae'r gydberthynas rhwng rhieni/gofalwyr ac awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau yn arbennig o bwysig ar hyn o bryd. Bydd sicrhau ymddiriedaeth rhieni/gofalwyr a dysgwyr bod ysgolion a lleoliadau yn ddiogel yn hanfodol os ydym am gynyddu gweithrediadau yn effeithiol o fis Medi 2020. Mae hyn yn berthnasol i bob dysgwr a theulu, ond mae'n debygol y bydd yn bwysicach fyth i rieni/gofalwyr dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais a all fod â phryderon iechyd penodol neu bryderon eraill ynghylch dychwelyd i'r ysgol neu'r lleoliad. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd rhai dysgwyr, gan gynnwys dysgwyr sydd ag AAA neu ddysgwyr Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), neu eu rhieni/gofalwyr, yn bryderus am risg ganfyddedig o ddal COVID-19, neu ganlyniadau dal y feirws. Hefyd, gallai gofalwyr ifanc, er enghraifft, fod yn poeni am y posibilrwydd o gario'r feirws adref a'i roi i berthynas sy'n wael, neu efallai eu bod yn bryderus am anghenion yr unigolyn maent yn gofalu amdano pan fyddant yn mynychu'r ysgol neu'n bryderus am y syniad o orfod hunanynysu.

Mae'n hollbwysig ein bod yn deall yr anghenion a'r rhwystrau penodol y mae dysgwyr unigol yn eu hwynebu ac yn ceisio mynd i'r afael â nhw a rhoi tawelwch meddwl iddynt drwy esbonio'r mesurau diogelu sy'n cael eu rhoi ar waith.

Dylai ysgolion a lleoliadau roi tawelwch meddwl i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr o ran y mesurau maent yn eu cymryd i leihau'r risg. Gall hyn gynnwys rhoi gwybodaeth am y canlynol i rieni/gofalwyr:

- trefniadau iechyd a diogelwch, megis arferion cadw pellter cymdeithasol wrth gyrraedd a gadael ysgolion a lleoliadau, gan gynnwys lleihau cyswllt rhwng

oedolion sy'n gollwng ac yn casglu plant, ac arferion golchi dwylo a hylendid anadlol cadarn
- trefniadaeth dosbarthiadau, gan gynnwys nifer yr aelodau o staff a dysgwyr mewn dosbarth
- trefniadau ar gyfer manteisio ar y cwricwlwm
- trefniadau glanhau (mae'r canllawiau hyn ar gael yn Saesneg yn unig) sydd ar waith drwy gydol y diwrnod ysgol ac ar ôl defnyddio cyfarpar a/neu adnoddau penodol
- y defnydd o gyfarpar diogelu personol gan staff a dysgwyr a'r trefniadau ar gyfer y dysgwyr hynny a fydd yn ei chael hi'n anodd defnyddio cyfarpar diogelu personol
- trefniadau i'w gwneud yn ystod amseroedd egwyl a chinio
- trefniadau ar gyfer gofal personol gan gynnwys, e.e. newid a bwydo
- trefniadau sydd ar waith ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld, e.e. gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd megis therapyddion, nyrsys ysgol a staff arbenigol yr awdurdod lleol.

Dylai ysgolion ystyried sut y gellid defnyddio dulliau gwaith ieuenctid er mwyn helpu i ymdrin â'r pryderon sydd gan ddysgwyr am ddychwelyd i'r ysgol, yn enwedig os bydd gwasanaethau ieuenctid wedi darparu cymorth yn ystod y cyfyngiadau symud.

Yn ogystal â'r grwpiau o ddysgwyr y bydd angen rhoi tawelwch meddwl iddynt o ran dychwelyd i'w hysgol neu eu lleoliad oherwydd pryderon iechyd sy'n gysylltiedig â COVID-19, mae'n debygol y bydd grwpiau o ddysgwyr y bydd angen tawelwch meddwl a/neu gymorth arnynt i ddychwelyd i'r ysgol neu'r lleoliad am nad ydynt wedi bod mewn cysylltiad â'u hysgol neu eu lleoliad yn ystod y cyfyngiadau symud, neu am eu bod wedi ymddieithrio o addysg yn gyfan gwbl. Mae risg y bydd y dysgwyr hynny sydd wedi ymddieithrio yn dod yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) yn y dyfodol; mae'r Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid ar waith er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc sy'n dod yn NEET.

Bydd rhai dysgwyr hefyd yn gyndyn i fynychu oherwydd cysylltiadau a phrofiadau negyddol, e.e. os oeddent yn cael eu bwlio yn yr ysgol, ac am eu bod wedi cael profiadau mwy cadarnhaol yn ystod y cyfyngiadau symud.

Mae'n bosibl y bydd rhai dysgwyr wedi datblygu gorbryder neu broblemau iechyd meddwl eraill o ganlyniad i effeithiau COVID-19. Yn ogystal, efallai y bydd COVID-19 wedi cynyddu neu ddwysáu gorbryder neu broblemau iechyd meddwl eraill a oedd eisoes gan y dysgwyr. Mae'n bosibl y bydd dysgwyr sydd â gorbryder neu broblemau iechyd meddwl eraill yn gyndyn o ddychwelyd i'w hysgol neu eu lleoliad, neu'n teimlo'n gynyddol bryderus am ddychwelyd, am fod yr argyfwng wedi tarfu ar eu presenoldeb.

Bydd staff mewn ysgolion a lleoliadau sy'n gyfrifol am bresenoldeb ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr yn allweddol wrth nodi dysgwyr a fyddai'n elwa o gymorth pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2020 ac wrth ymgysylltu â gofalwyr a theuluoedd a'u cefnogi. Bydd deall yr hyn sy'n peri pryder iddynt yn hanfodol wrth benderfynu ar ffyrdd o'u cefnogi i ddychwelyd. Gall hyn gynnwys sgwrs ag oedolyn

yn yr ysgol neu'r lleoliad y mae'r dysgwr yn ymddiried ynddo a fyddai yn y sefyllfa orau i siarad ag ef am ei bryderon a meithrin ei hyder i ddychwelyd. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn helpu'r dysgwr i deimlo bod pobl yn gwrando arno, ei alluogi i ddychmygu sut beth fydd dychwelyd i'r ysgol iddo, ac ailsefydlu rôl yr aelod o staff fel 'man diogel' yn yr ysgol neu'r lleoliad. Mae'n bosibl y bydd gweithwyr proffesiynol eraill, megis cwnselwyr yn yr ysgol ac yn y gymuned, staff Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gweithwyr ieuenctid, yn gallu cynorthwyo gyda'r sgyrsiau hyn o ystyried eu harbenigedd mewn perthynas â datblygu cydberthnasau cefnogol gyda phobl ifanc. Bydd y sgyrsiau hyn hefyd yn darparu'r sylfaen hanfodol i wneud cynlluniau wrth gefn a pharatoadau ar gyfer cyfyngiadau symud cenedlaethol neu leol posibl yn y dyfodol.

Dylai ysgolion a lleoliadau ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt am ddysgwyr i gynllunio'r broses ddychwelyd. Gall hyn gynnwys ymweliadau â'r ysgol neu'r lleoliad, defnyddio straeon cymdeithasol, cysylltu â'r dysgwr a'i deulu neu unrhyw ddulliau eraill y byddai'r ysgol, y lleoliad neu'r awdurdod lleol yn eu defnyddio fel arfer er mwyn galluogi'r dysgwr i ddychwelyd. Gall fod yn briodol ystyried patrymau presenoldeb hyblyg yn y byrdymor, neu drefniadau dychwelyd graddol, er mwyn i'r dysgwr allu magu hyder.

Os na fydd darpariaeth a roddwyd ar waith wedi llwyddo i gefnogi dysgwyr i fynychu'r ysgol, dylai'r ysgol neu'r lleoliad gysylltu â'r awdurdod lleol am gyngor a dilyn gweithdrefnau lleol ar gyfer gwneud atgyfeiriadau at y Gwasanaeth Lles Addysg a/neu wasanaethau priodol eraill, megis Gwasanaethau Seicoleg Addysgol.

Mae Barnardo's a Gweithredu Dros Blant wedi llunio adroddiad o'r enw Gwersi'r cyfyngiadau symud: Cefnogi plant a phobl ifanc agored i niwed wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol ac i addysg. Mae'r adroddiad yn cynnwys awgrymiadau defnyddiol ar ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol.

Mae'r Sefydliad Gwaddol Addysgol wedi llunio ystod o adnoddau (Saesneg yn unig) i helpu ymarferwyr i gefnogi dysgwyr wrth iddynt ddychwelyd i'w hysgol neu eu lleoliad.

### Y broses bontio

Gall trosglwyddo i ysgol neu leoliad newydd fod yn gyfnod ansicr i ddysgwyr. Mae'n bosibl y bydd y sefyllfa bresennol wedi dwysáu unrhyw bryderon am fod pethau megis trefniadau pontio sefydledig wedi gorfod cael eu haddasu er enghraifft. Mae sicrhau bod dysgwyr o grwpiau agored i niwed a dan anfantais yn trosglwyddo'n effeithiol yn arbennig o bwysig, a hynny o ran eu lles a'u dysgu ehangach.

Yn ddelfrydol, dylai'r broses bontio fod wedi dechrau cyn dechrau'r achosion COVID-19, a dylai fod yn parhau, cyn belled â bod hynny'n bosibl. Dylai fod gan awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau drefniadau sefydledig ar waith, gan gynnwys partneriaethau â cholegau a darparwyr dysgu eraill ar gyfer dysgwyr sy'n trosglwyddo i ddysgu ôl-16. Bydd lleoliadau addysg wedi dechrau rhannu gwybodaeth â rhieni/gofalwyr a'r man dysgu nesaf.

Dylai'r awdurdod lleol a/neu'r ysgol neu'r lleoliad gysylltu â dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr i esbonio sut y caiff y broses bontio ei rheoli a bydd yn cynnwys dysgwyr, eu rhieni/gofalwyr a, lle y bo'n briodol, asiantaethau cymorth, mewn trafodaethau sy'n ymwneud â throsglwyddo, gan gynnwys y ddarpariaeth a wneir. Bydd angen i drafodaethau o'r fath ystyried goblygiadau lleihau cyswllt ac, o bosibl, trafnidiaeth, materion meddygol/materion yn ymwneud ag iechyd, cymorth ariannol ac unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen ar y dysgwyr a'u teuluoedd.

Efallai y bydd dysgwyr yn bryderus y gallai eu profiad dysgu edrych yn wahanol, yn enwedig mewn amgylchedd newydd ac anghyfarwydd, ac mae'n bosibl hefyd y bydd gan ddysgwyr hŷn bryderon am ragolygon addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y dyfodol ar ôl cwblhau eu dysgu. Mae llawer o enghreifftiau lle mae ysgolion a lleoliadau wedi ymgymryd â gweithgareddau megis teithiau tywys rhithwir i ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd lleoliadau wedi darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau pellach drwy gysylltiad uniongyrchol, deunyddiau cyhoeddedig ac ar wefannau. Dylid hefyd ystyried a fyddai angen gwybodaeth bwrpasol a/neu ffyrdd o ddarparu'r wybodaeth honno ar gyfer newydd-ddyfodiaid, e.e. dysgwyr sydd ag AAA, dysgwyr sydd â Chymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol neu ddysgwyr sydd o gymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, ac ymadawyr gofal.

Mae pryder y bydd mwy o bobl ifanc yn wynebu risg o ymddieithrio o ganlyniad i argyfwng COVID-19. Mae'n bwysig bod dysgwyr sydd wedi ymddieithrio, neu sy'n wynebu risg o ymddieithrio, ac sy'n trosglwyddo i leoliadau ôl-16, yn cael eu nodi a'u cefnogi i gyrchfan gadarnhaol (boed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) drwy'r Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid. Os bydd gan ysgolion a lleoliadau bryderon ynghylch dysgwyr yn cael profiad cadarnhaol o drosglwyddo i fyd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, dylent dynnu sylw cydgysylltydd ymgysylltu a datblygu'r awdurdod lleol a Gyrfa Cymru at hyn fel y gellir rhoi cymorth priodol ar waith.

**Cadw pellter cymdeithasol**

Mae'r Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref yn cynnwys gwybodaeth am gadw pellter cymdeithasol. Mae'r negeseuon trosfwaol yn ymwneud â'r canlynol:

- lleihau'r cyswllt rhwng unigolion pan fo'n bosibl
- lleihau faint o gyswllt fydd rhwng y dysgwyr a'r staff
- cadw grwpiau cyswllt dysgwyr a staff ar wahân pan fo'n bosibl.

Mae'r canllawiau yn mynd ymlaen i nodi y bydd y pwyslais ar wahanu grwpiau i ddysgwyr iau, ac i ddysgwyr hŷn bydd y pwyslais ar gadw pellter cymdeithasol.

Yn gyffredinol, mae'n bosibl y bydd y cysyniad o 'iau' a 'hŷn' yn fwy priodol ar gyfer lleoliadau prif ffrwd. Ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA, er enghraifft, efallai y bydd y cysyniadau hyn yn llai defnyddiol. Felly bydd angen i leoliadau ddefnyddio eu gwybodaeth bersonoledig a diweddaru asesiadau risg i lywio eu gwaith cynllunio ar gyfer dysgwyr unigol gan gynnwys, er enghraifft, y dysgwyr hynny sydd ag ymddygiadau heriol a chymhleth.

Mae'r Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref yn tynnu sylw at ba mor bwysig yw cael llai o gyswllt a chymysgu rhwng grwpiau o bobl. Bydd angen ystyried y cysyniad hwn yn llawn wrth ystyried anghenion dysgwyr sydd ag AAA hefyd, wrth ddarparu cwricwlwm sy'n eang ac yn gytbwys. Dylai ysgolion a lleoliadau gymryd camau i sicrhau bod grwpiau gwahanol yn rhyngweithio cyn lleied â phosibl â'i gilydd ac yn rhannu ystafelloedd a mannau cymdeithasol cyn lleied â phosibl os oes modd.

Dylai lleoliadau ystyried defnyddio 'grwpiau cyswllt bach cyson', yn enwedig ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gallu cadw pellter cymdeithasol oddi wrth staff na'i gilydd.

**Cludiant**

Ceir canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau yn y Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref. Ar gyfer y mwyafrif o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai o grwpiau agored i niwed a dan anfantais, bydd y trefniadau cludiant cyffredinol a roddir ar waith ar gyfer yr holl ddysgwyr yn briodol. Fodd bynnag, ar gyfer rhai dysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd ag AAA, bydd ystyriaethau ychwanegol. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r canllawiau gweithredol yn cydnabod hyn ac yn cynnwys cyngor pellach.

**Defnyddio cyfarpar diogelu personol**

Dylai staff ddefnyddio cyfarpar diogelu personol ar sail asesiad clir o'r risg, gan ystyried pob lleoliad unigol ac anghenion y dysgwr unigol. Mae'r Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref yn rhoi arweiniad clir ar ddefnyddio cyfarpar diogelu personol mewn senarios gwahanol. Mae hyn yn cynnwys dolen i wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (Saesneg yn unig) sy'n cynnwys gwybodaeth am ddefnyddio cyfarpar diogelu personol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol a lleoliadau nad ydynt yn rhai gofal iechyd.

Dylai'r ysgol neu'r lleoliad ystyried defnyddio cyfarpar diogelu personol gyda rhai dysgwyr, yn enwedig rhai sydd ag AAA, yn ofalus ac asesu'r risg.

Oherwydd anghenion unigol rhai dysgwyr, efallai y bydd angen defnyddio mathau penodol o gyfarpar diogelu personol ar adegau gwahanol yn ystod y dydd ac ar gyfer gweithgareddau gwahanol. Bydd yn rhaid i leoliadau sicrhau bod y trefniadau y cytunwyd arnynt mewn perthynas â defnyddio cyfarpar diogelu personol yn glir ar gyfer pob dysgwr unigol. Dylid nodi hyn yng nghynlluniau dysgu unigol dysgwyr er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r drefn ac yn defnyddio cyfarpar diogelu personol yn gyson gyda disgyblion unigol.

Dylid ystyried lles dysgwyr wrth benderfynu a ddylid gwisgo gorchuddion wyneb. Ni ddylai unigolion a allai ei chael hi'n anodd defnyddio gorchudd wyneb, e.e. rhai dysgwyr sydd ag AAA, wisgo un oherwydd gallai gynyddu'r risg o drosglwyddo'r feirws yn anfwriadol. Dylid hefyd ystyried y ffordd y mae dysgwr yn debygol o ymateb i bobl eraill yn defnyddio gorchudd wyneb, felly hefyd unrhyw effaith bosibl ar ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.

Wrth ystyried y defnydd o fasgiau, bydd angen i ysgolion a lleoliadau wneud penderfyniadau gofalus, y cynhaliwyd asesiad risg ar eu cyfer, ar sail amgylchiadau unigol, gan ystyried anghenion a dewisiadau dysgwyr unigol a staff.

Fel y nodir yn y canllawiau gweithredol, mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar wedi ystyried effaith masgiau wyneb ar blant byddar (Saesneg yn unig).

**Gwaharddiadau**

Dim ond fel dewis olaf y dylid gwahardd dysgwyr. Os nad oes modd osgoi gwaharddiad, mae canllawiau Llywodraeth Cymru Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn amlinellu'r cymorth y mae'n rhaid i ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol ei ddarparu i bob plentyn sydd wedi cael ei wahardd o ysgol ac o unedau cyfeirio disgyblion.

Mae'r canllawiau'n nodi'n glir y dylai ysgolion a lleoliadau osgoi gwahardd dysgwyr sydd â datganiadau AAA yn barhaol ac eithrio yn yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, ac y dylent wneud pob ymdrech i osgoi gwahardd dysgwyr sy'n cael eu cefnogi drwy Weithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy, gan gynnwys y rhai sy'n destun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ond sy'n cael eu hasesu am ddatganiad.

Dylai ysgolion a lleoliadau fod yn arbennig o sensitif i waharddiadau sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal. Bydd angen i ysgolion a lleoliadau geisio pob dull ymarferol o gadw dysgwr yn yr ysgol a dylent geisio cyngor gan yr awdurdod lleol a gweithwyr proffesiynol eraill lle y bo'n briodol.

## Y broses wahardd

Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at nifer o oblygiadau i'r broses wahardd oherwydd yr anawsterau gyda chynnal pwyllgorau disgyblu disgyblion a phaneli apelio annibynnol. O ganlyniad, mewn rhai achosion, mae oedi wedi bod wrth gwblhau'r broses wahardd a dod o hyd i leoliadau amgen ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u gwahardd yn barhaol.

Mae rheoliadau newydd i newid rhai gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn wrth wahardd dysgwr yn cael eu paratoi. Diben y rheoliadau newydd yw rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion a lleoliadau, rhieni/gofalwyr ac awdurdodau lleol yn ystod brigiad o achosion COVID-19. Byddant yn gymwys i bob ysgol a lleoliad a gynhelir.

Bydd canllawiau ar wahân yn dilyn pan ddaw'r rheoliadau i rym.

Ar gyfer y dysgwyr hynny a gafodd eu gwahardd yn barhaol cyn neu yn ystod y cyfyngiadau symud, mae'n hanfodol bod yr awdurdod lleol lle mae'r dysgwr yn byw yn gwneud trefniadau cyn gynted â phosibl iddo barhau mewn addysg amser llawn addas, os nad oedd yn bosibl i'r awdurdod lleol drefnu lleoliad amgen yn ystod y cyfyngiadau symud. Byddai'r awdurdod lleol wedi bod yn gyfrifol am sicrhau parhad dysgu ar gyfer y dysgwr yn ystod y cyfyngiadau symud.

**Osgoi gwaharddiadau ac atgyfeiriadau at EOTAS**

Mae posibilrwydd y bydd ymddygiad heriol yn cynyddu ymhlith dysgwyr sy'n mynychu addysg brif ffrwd. Bydd hyn yn arbennig o wir i'r dysgwyr hynny a oedd yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu cyn COVID-19 ac a all gael trafferth addasu i'r newid mewn arferion dyddiol, gan gynnwys yr arferion mwy strwythuredig a'r disgwyliadau o ran dysgu ac ymddygiad, pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol.

Gall deall yr hyn sy'n achosi'r newid mewn ymddygiad fod yn fan cychwyn ar gyfer cefnogi'r dysgwr i addasu a rheoli ei ymddygiad.

Dylai ysgolion a lleoliadau ystyried addasu eu polisi ymddygiad er mwyn ystyried effaith bosibl COVID-19 ar les ac ymddygiad dysgwyr. Nid yw hyn yn golygu gostwng disgwyliadau cyffredinol o ran safonau ymddygiad derbyniol. Yn hytrach, dylai ysgolion a lleoliadau barhau i ganolbwyntio ar anghenion unigolion, gan ddarparu cymorth yn ôl yr angen, a sicrhau bod polisïau yn adlewyrchu'r gofyniad am ddealltwriaeth a hyblygrwydd.

Dylai ysgolion a lleoliadau hefyd ystyried ceisio cyngor gan y gwasanaeth ieuenctid sydd ag arbenigedd mewn delio â phobl ifanc ag ymddygiad heriol, ac sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio o dan y Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid, i gefnogi pobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf o ymddieithrio.

Mae rhagor o wybodaeth am reoli ymddygiad mewn ystafelloedd dosbarth ar gael ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.

**Arholiadau haf 2020/21**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod er budd pennaf y dysgwyr hynny sydd i fod i sefyll eu harholiadau yn ystod haf 2021 i wneud hynny, gyda rhai addasiadau er mwyn cydnabod yr amser addysgu a dysgu a gollwyd o ganlyniad i'r pandemig, sy'n golygu na fydd cynnwys cyrsiau wedi'i gwmpasu'n llawn o bosibl.

Bydd ystyriaethau gwahanol yn gymwys gan ddibynnu ar y pwnc a'r math o gymwysterau, felly mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi gofynion rheoleiddio sy'n gysylltiedig ag amod arbennig sy'n galluogi CBAC i addasu pynciau penodol ar ôl ymgynghori ag ymarferwyr[1, 2]. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddangos eu gallu gan gydnabod y ffordd y mae'r pandemig wedi tarfu ar eu haddysgu a'u dysgu. Bydd hefyd yn rhoi mwy o amser i athrawon gyflwyno cynnwys, gan wneud y defnydd gorau o'r amser sydd ar gael pan fydd ysgolion a lleoliadau yn ailddechrau yn llawn a sicrhau bod y cymwysterau yn dal i fod yn gymwys ac yn ystyrlon.

---

[1] Gofynion ar gyfer Addasu Asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol (TGAU, TAG a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru) yn 2021.

[2] Amodau Arbennig: addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn 2021.

Wrth ystyried yr addasiadau a wneir i bob cymhwyster, bydd CBAC yn sicrhau bod y dull gweithredu yn lleihau tuedd a'i fod yn cydymffurfio â'r gofynion mynediad ac addasiadau rhesymol sydd eisoes yn bodoli fel y nodwyd gan Cymwysterau Cymru.

Er mwyn cefnogi dysgwyr ymhellach i sefyll eu harholiadau'r flwyddyn nesaf, byddant yn garfan â blaenoriaeth ar gyfer cymorth drwy Recriwtio, adfer a chodi safonau – y rhaglen dysgu carlam – a bydd grwpiau agored i niwed a dan anfantais hefyd.

Bydd cefnogi lles dysgwyr a fydd yn sefyll arholiadau yn ystod haf 2021, a all deimlo dan bwysau arbennig, hefyd yn hanfodol.

**Fideogynadledda a ffrydio byw**

Drwy Hwb, llwyfan dysgu digidol Cymru, mae gan ddysgwyr ac ymarferwyr o ysgolion a gynhelir fynediad at amrywiaeth o adnoddau dysgu ar-lein, megis Microsoft Teams yn Microsoft Office 365[3] a Google Meet yn G-Suite for Education. Gall defnyddio apiau Microsoft Teams a Google Meet drwy Hwb ddarparu profiad rhyngweithiol a chyfle i gydweithredu ac ymgysylltu mewn ffordd ddiogel a hygyrch.

Mae diogelu yn egwyddor hanfodol o ddysgu digidol. Mae diogelwch a lles dysgwyr yn hollbwysig a dyma'r flaenoriaeth dros bob ystyriaeth arall.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru Ffrydio byw – arferion ac egwyddorion diogelu i ymarferwyr addysg yn darparu cyngor ar sut y gellir defnyddio fideogynadledda a ffrydio byw yn ddiogel.

Gall y canllawiau fod o fudd i ymarferwyr eraill hefyd, megis therapyddion, seicolegwyr addysg, cydlynwyr anghenion addysgol arbennig (SENCo)/cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (ALNCo) a staff cynghori sy'n cefnogi dysgwyr.

Cyhoeddwyd y canllawiau ym mis Mai 2020 yn wreiddiol, pan oedd ysgolion ar gau a phan oedd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn gweithio gartref. Maent wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu achosion lle mae ymarferwyr a dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth.

**Staff peripatetig**

Lle y bo'n bosibl, dylai'r ysgol neu'r lleoliad hwyluso'r cymorth parhaus i ddysgwyr a ddarperir gan staff peripatetig. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i ddysgwyr sydd ag AAA, ond bydd yn cael effaith ehangach ar ddysgu a chymorth pob dysgwr hefyd. Er enghraifft, mae gwasanaethau partner yn hanfodol ar gyfer darparu addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn effeithiol. Dylai ysgolion a lleoliadau ystyried dulliau

[3] hwb.llyw.cymru/canolfan-cymorth/gwasanaethau-hwb/microsoft/office-365

cyflwyno amgen, megis ymarferwyr allanol yn ffrydio cyflwyniadau yn fyw i'r ystafell ddosbarth, cyn belled â bod mesurau diogelu priodol yn cael eu rhoi ar waith.

Dylai awdurdodau lleol roi cyngor i ysgolion yn eu hardaloedd er mwyn sicrhau y defnyddir dull cyson ar draws ardal yr awdurdod a bod y ddarpariaeth i ddysgwyr ym mhob rhan o'r awdurdod yn deg yn hyn o beth.

**Cyfranogiad**

Mae gan gyfranogiad gysylltiadau pwysig â lles a'i nod yw bodloni hawliau plant i gymryd rhan mewn penderfyniadau a wneir yn eu hysgol neu eu lleoliad. Felly mae'n bwysig bod ysgolion a lleoliadau yn sicrhau bod trefniadau cyfranogiad yn parhau. Mae hefyd yn hanfodol y gall pob grŵp o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai o grwpiau agored i niwed a dan anfantais, gymryd rhan.

Bydd angen i ysgolion a lleoliadau ystyried amrywiaeth o drefniadau ar gyfer hwyluso cyfranogiad o fis Medi 2020. Roedd trefniadau yn aml yn cynnwys cyfarfodydd rhwng grwpiau o ddysgwyr o grwpiau blwyddyn gwahanol. Efallai na fydd y dull hwn bob amser yn bosibl yn 2020/21 ac y bydd angen rhoi modelau amgen ar waith, e.e. defnyddio blychau awgrymiadau, pleidleisio ar-lein, creu grwpiau cyfranogiad fesul blwyddyn neu ddefnyddio adnoddau sydd ar gael ar Hwb.

**Darparu bwyd a diod mewn ysgolion i ddysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais**

Mae'r Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref yn atgoffa awdurdodau lleol o'u dyletswyddau cyfreithiol o ran darparu bwyd a diod.

Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais i gael bwyd a diod yn yr ysgol a dylai awdurdodau lleol ystyried anghenion yr holl ddysgwyr wrth wneud trefniadau ar gyfer darpariaeth arlwyo. Bydd anghenion ychwanegol yn amrywio gryn dipyn a gallant gynnwys problemau megis mynediad corfforol, anawsterau cyfathrebu, alergeddau neu ddeietau arbennig. Mae'n bosibl y bydd trefniadau a rheolaethau penodol a roddir ar waith o ganlyniad i bandemig COVID-19 yn dwysáu'r anghenion hyn. Dylid ystyried anghenion unigol dysgwyr a dylid rhoi mesurau cymorth ar waith.

## Canllawiau dysgu

Ar 13 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref. Mae'r canllawiau yn gymwys i bob ysgol a lleoliad mewn perthynas â dysgu o fis Medi 2020.

Mae'r canllawiau a roddir yn y ddogfen hon yn ategol a dylid darllen y ddwy ddogfen ochr yn ochr â'i gilydd. Mae'r adran hon yn ymwneud yn benodol â'r ystyriaethau ychwanegol sy'n berthnasol i gefnogi'r ffyrdd y mae dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais yn dysgu.

Mae'r Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref yn cynghori ysgolion a lleoliadau i baratoi ar gyfer amrywiaeth o senarios o fis Medi 2020 a hwyluso dysgu sy'n ddigon hyblyg i ymateb i amodau newidiol.

Dylai'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu fod yn seiliedig ar y canlynol:

- iechyd a lles dysgwyr
- dylai fod diben clir i'r holl ddysgu
- dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau sy'n berthnasol iddynt mewn cwricwlwm eang a chytbwys
- dylai'r cwricwlwm, y ffordd y caiff ei ddarparu a chymorth sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd sy'n briodol i'w hanghenion
- dylai ysgolion a lleoliadau weithio mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill lle y bo'n briodol.

Mae'r Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref yn nodi'n glir bod lles yn elfen hanfodol o ddysgu. Mae'n debygol y bydd y cyfyngiadau symud â pheidio â mynychu ysgol neu leoliad am rai misoedd wedi cael effaith ar y rhan fwyaf o ddysgwyr i ryw raddau, ac mae'n bosibl na fyddwn yn gwybod beth yw'r effaith lawn am beth amser. O ganlyniad i'w hanghenion penodol a'r rhwystrau i ddysgu y maent eisoes yn eu hwynebu, mae'n bosibl mai dysgwyr o grwpiau agored i niwed a dan anfantais fydd yn dioddef fwyaf o ran yr effaith ar eu lles. Mae'r Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref yn nodi na fydd dysgwyr yn dysgu'n effeithiol os nad ydynt yn teimlo'n fodlon ac yn ddiogel. Mae hefyd yn nodi y bydd angen i ymarferwyr roi sylw penodol i ddysgwyr na allant fynd i ysgol neu leoliad ar unrhyw adeg a sut mae modd eu cefnogi o bell. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am ddatblygu ac atgyfnerthu partneriaethau â rhieni, gofalwyr a dysgwyr. Ceir rhagor o wybodaeth am gefnogi lles pob dysgwr yn y Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datblygu dull ysgol gyfan newydd gyda'r nod o helpu ysgolion i adolygu eu trefniadau lles a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw meysydd i'w gwella a datblygu eu cryfderau. Yn benodol, bydd y fframwaith yn cefnogi'r canlynol:

- iechyd meddwl a lles emosiynol cadarnhaol pob dysgwr ac aelod o staff
- y gwaith o ddatblygu ac ymgorffori arferion gorau
- cysondeb a chydweithrediad rhwng ysgolion a phartneriaid
- gweithgareddau megis hyfforddiant ac ymwybyddiaeth.

Cyhoeddwyd y fframwaith newydd ar gyfer ymgynghoriad ar 8 Gorffennaf 2020; daw'r ymgynghoriad i ben ar 30 Medi 2020.

Mae pob dysgwr sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu yn cael budd o ddulliau gweithredu, ar gyfer addysgu a chymorth, sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion y dysgwr. Nid yw hyn wedi newid. Bydd angen i leoliadau addysg ystyried a yw anghenion dysgwyr, o ran lles a dysgu yn fwy cyffredinol, wedi newid a bydd angen iddynt wneud addasiadau priodol i ddiwallu'r rhain. Bydd lleoliadau eisoes

wedi arfer gweithio gydag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, megis cwnselwyr ysgol, ymarferwyr CAMHS a gweithwyr ieuenctid, a all ddarparu cyngor, cymorth ac arweiniad arbenigol.

Os bydd ymarferwyr yn nodi y byddai dysgwr yn cael budd o gymorth ychwanegol ar gyfer ei ddysgu neu ei les, dylid rhoi'r cymorth hwn ar waith. Os oes gan y dysgwr gynllun dysgu, e.e. cynllun addysg personol neu gynllun addysg unigol, dylid nodi'r cymorth ychwanegol hwn yng nghynllun y dysgwr. Fodd bynnag, nid yw cynllun dysgu yn rhagofyniad ar gyfer cymorth ychwanegol – dylai penderfyniadau fod yn seiliedig ar anghenion unigol dysgwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rhaglen Recriwtio, adfer a chodi safonau ar gyfer 2020/21. Dylid ystyried cymorth ychwanegol drwy'r rhaglen hon ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais. Ceir rhagor o wybodaeth am y rhaglen hon yn yr adran Recriwtio, adfer a chodi safonau – y rhaglen dysgu carlam.

Dylai'r awdurdod lleol a/neu'r ysgol neu'r lleoliad ymgysylltu â rhieni/gofalwyr a darparu gwybodaeth glir am y ffordd y caiff dysgu ei gynnal os na all y dysgwr fynychu oherwydd problemau meddygol neu broblemau'n ymwneud ag iechyd, neu am reswm arall. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys manylion am unrhyw adnoddau cwricwlaidd, gan gynnwys cyfarpar a/neu dechnoleg arbenigol, dull o addysgu a sut y caiff ei roi ar waith, a lefel y gofal, y cymorth a'r arweiniad a gaiff ei darparu gan y lleoliad neu gan bobl eraill.

Dylid ystyried barn dysgwyr, lle y bo'n ymarferol, a'u rhieni/gofalwyr wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau hawliau plant a phobl ag anableddau ac mae ymgynghori â nhw yn helpu i roi effaith wirioneddol i hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), yn enwedig mewn perthynas â'r hawl yn Erthygl 12 i'r rhai sy'n gallu gwneud hynny fynegi eu barn, eu teimladau a'u dymuniadau o ran pob mater sy'n effeithio arnynt. Mae ymgynghori â phlant a rhieni/gofalwyr hefyd yn fwy tebygol o arwain at benderfyniadau gwell a chytuno ar ddarpariaeth effeithiol.

Nawr yn fwy nag erioed, ni ellir tanbrisio pwysigrwydd arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gefnogi grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais. Bydd awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau wedi bod yn datblygu cyfranogiad dysgwyr drwy ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Un o nodweddion allweddol arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yw bod dysgwyr yn cael y cyfle i fynegi'r hyn sy'n gweithio iddynt, a'r hyn nad yw'n gweithio, a pha gymorth sydd ei angen arnynt.

Mae Estyn, wedi gweithio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC), y consortia addysg rhanbarthol ac awdurdodau esgobaethol i lunio arweiniad ar sut i barhau â busnes ysgol ac unedau cyfeirio disgyblion. Mae'r cyngor hwn yn rhoi crynodeb defnyddiol o'r egwyddorion ar gyfer defnyddio technoleg ac yn tynnu sylw at arferion a fabwysiadwyd gan ysgolion a lleoliadau.

**Ystyriaethau penodol**

## Anghenion addysgol arbennig

### Dysgwyr sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) a dyletswydd yr awdurdod lleol i gydymffurfio â’r datganiad

Mae’n debygol y bydd gallu’r awdurdod lleol a/neu’r ysgol neu’r lleoliad i ddiwallu’r anghenion addysgol sydd yn y datganiad AAA yn debygol o ddibynnu ar nifer o ffactorau yn y cyd-destun cyfredol.

Mae’n bosibl na fydd llawer o ddysgwyr sydd ag AAA wedi bod yn mynychu eu lleoliad addysg arferol. Efallai fod hyn wedi ei gwneud hi’n anodd i awdurdodau lleol ac ysgolion a lleoliadau sicrhau’r ystod o ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr hynny sydd â datganiadau AAA a’r rhai sydd hebddynt. Bydd ysgolion a lleoliadau wedi cadw mewn cysylltiad â rhieni/gofalwyr yn ystod y cyfnod hwn a dylent fod wedi bod yn rhoi deunyddiau dysgu a chymorth, adnoddau a chyngor iddynt. Fodd bynnag, er y cydnabyddir mai teuluoedd yn aml sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion eu plentyn, nid yw rhieni a gofalwyr yn weithwyr proffesiynol ac mae llawer wedi cael anawsterau wrth geisio diwallu anghenion dysgu eu plentyn yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau.

Dylai’r awdurdod lleol a/neu’r ysgol neu’r lleoliad weithio gyda rhieni/gofalwyr, dysgwyr a, lle y bo’n briodol, asiantaethau eraill, i drafod a chytuno ar unrhyw drefniadau wrth gefn y mae angen eu rhoi ar waith i ddiwygio darpariaeth a nodir yn y datganiad o ganlyniad i COVID-19, os bydd angen cyfyngiadau symud lleol neu genedlaethol.

Mae gan y Gweinidog Addysg y pŵer i ddiwygio dyletswyddau statudol awdurdodau lleol dros dro. Nid yw hysbysiadau dros dro wedi cael eu defnyddio yn y cyd-destun hwn. Felly nid yw dyletswyddau statudol awdurdodau lleol wedi newid mewn perthynas ag AAA.

Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd o hyd i drefnu’r ddarpariaeth addysgol arbennig a nodir yn y datganiad.

### Cymorth y bydd dysgwyr sydd ag AAA yn ei gael gan gynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr cymorth, gwasanaethau addysg arbenigol a/neu therapyddion

Mae’n rhaid i anghenion dysgwyr sydd â datganiadau AAA barhau i gael eu diwallu. Mae’n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau y caiff y ddarpariaeth addysgol arbennig a nodir yn y datganiad ei bodloni gan yr ysgol neu’r lleoliad.

Fodd bynnag, o ganlyniad i COVID-19, cydnabyddir na fydd systemau cymorth o bosibl yn gweithredu fel y byddent fel arfer ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae’n bosibl y bydd staff mewn awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau a byrddau iechyd lleol wedi cael eu hadleoli i ymdrin â blaenoriaethau eraill yn eu gwasanaethau, ac efallai y bydd rhai aelodau o staff yn hunanynysu.

Mae llawer o enghreifftiau lle mae awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau, ac asiantaethau partner wedi gweithio'n greadigol i ddarparu dulliau ymarferol a hyblyg, gan gynnwys darparu gwasanaethau o bell; dylai hyn barhau lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol.

Fel y nodwyd uchod, mae'n bosibl bod gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, megis therapyddion lleferydd ac iaith, ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol, wedi bod yn defnyddio Gwasanaeth Ymgynghori Fideo GIG Cymru yn hytrach na chyfarfod â chleientiaid wyneb yn wyneb yn ystod y cyfyngiadau symud.  Fodd bynnag, dylai'r cymorth hwn allu cael ei ddarparu wyneb yn wyneb eto o fis Medi 2020 yn amodol ar asesiad risg priodol. Gall ysgol neu leoliad y dysgwr ddarparu gwybodaeth benodol am gynorthwywyr addysgu/cymorth a therapyddion sydd ar gael.

Lle bydd dysgwyr yn cael budd o ddefnyddio pyllau hydrotherapi, dylai asesiad risg unigol alluogi'r ymarferydd i bennu a all y dysgwr fod ar ei ben ei hun yn y pwll. Os bydd angen cymorth arno, yna'n ddelfrydol dylai gael ei ddarparu o'r tu allan i'r pwll neu, os nad yw'n bosibl, gyda mesurau cadw pellter corfforol neu drwy ddefnyddio cyfarpar diogelu personol priodol. Dylid cwblhau asesiad risg ar gyfer pob achos unigol.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau barhau i sicrhau bod anghenion unigol dysgwyr yn cael eu hystyried yn llawn. Wrth benderfynu ar gamau dilynol priodol, gan gynnwys cyngor, cymorth ac arweiniad, anghenion dysgwyr unigol fydd y brif ystyriaeth o hyd. Mae'n rhaid i ddarpariaeth fod yn seiliedig ar anghenion unigol hefyd. Nid yw'n briodol defnyddio polisïau cyffredinol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau sicrhau nad ydynt yn atal ymweliadau gan weithwyr proffesiynol a allai fod yn fuddiol i ddysgwyr sydd ag AAA. Gallai gwneud hynny dorri dyletswyddau AAA statudol.

Mae'r Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref yn egluro disgwyliadau mewn perthynas â rôl staff a symud rhwng ysgolion a lleoliadau. Yn ogystal, mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar ffrydio byw yn cynnig cyngor ar ymgysylltu o bell. Efallai na fydd hyn yn briodol i bob dysgwr a dylid ei ystyried fesul achos.

Mae disgwyliad clir y dylai gwasanaethau i ddysgwyr sydd ag AAA gael eu cynnal.

## Adolygu'r datganiad AAA

Nid yw'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu datganiadau AAA wedi newid. Caiff datganiadau AAA eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae enghreifftiau lle mae awdurdodau lleol ac ysgolion a lleoliadau wedi parhau â'r trefniant  hwn o bell yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae'n bosibl y bu oedi wrth gael y cyngor angenrheidiol gan weithwyr proffesiynol yn ystod y cyfyngiadau symud. Fodd bynnag, ym mis Medi 2020, dylid blaenoriaethu'r gwaith o gwblhau'r adolygiadau hyn ac ymgymryd ag unrhyw rai nad oedd modd eu dechrau pan oedd ysgolion ar gau er mwyn sicrhau bod yr effaith ar ddysgu a chymorth yn cael ei lleihau. Dylai ystyriaeth

benodol o effaith COVID-19 fod yn rhan o adolygiadau o ddatganiadau yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

## Y broses ar gyfer cynnal asesiadau statudol o AAA

Mae dyletswyddau awdurdodau lleol ac ysgolion a lleoliadau mewn perthynas ag asesiadau statudol ar waith o hyd ynghyd â'r amserlenni.

## Dysgwyr sydd â chynlluniau datblygu unigol neu gynlluniau addysg unigol a darpariaeth addysgol arbennig

Nid yw'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) newydd, sy'n cynnwys llunio cynlluniau datblygu unigol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, mewn grym eto. Mae rhai awdurdodau lleol ac ysgolion a lleoliadau wedi dechrau defnyddio cynlluniau datblygu unigol, ond nid yw'r gofynion statudol sy'n ymwneud â nhw yn gymwys eto. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol wedi llunio cynlluniau datblygu unigol gyda chytundeb rhieni/gofalwyr.

Nid oes datganiad gan lawer o ddysgwyr sydd ag AAA. Dylai fod ganddynt gynllun addysg unigol. Dylai cynlluniau addysg unigol a chynlluniau datblygu unigol amlinellu anghenion y dysgwr a pha gamau y dylai'r ysgol eu cymryd i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'n rhaid i gorff llywodraethu ysgol brif ffrwd a gynhelir wneud pob ymdrech i sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n ofynnol ar gyfer dysgwr sydd ag AAA ar gael[4].

Mae'n bosibl y bydd y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau wedi effeithio ar allu awdurdodau lleol ac ysgolion a lleoliadau i ddiwallu anghenion dysgwyr sydd ag AAA yn llawn, p'un a oes ganddynt ddatganiad neu gynllun anstatudol. Ym mis Medi 2020, dylai'r awdurdod lleol a/neu'r ysgol ystyried anghenion dysgwyr unigol, gan gynnwys unrhyw effaith uniongyrchol o ganlyniad i COVID-19, er mwyn pennu pa gymorth sydd ei angen ar y dysgwr ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf o ran ei les a'i ddysgu ehangach. Dylai'r adolygiad hwn a'r cymorth a bennir gael eu dogfennu yng nghynllun y dysgwr.

## Darpariaeth seibiant i ddysgwyr sydd ag AAA

Mae enghreifftiau lle mae ysgolion a lleoliadau arbennig a gynhelir wedi cynyddu ac ehangu eu darpariaeth seibiant. Mae'n bwysig bod yr awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth glir am argaeledd darpariaeth seibiant yn ystod y cyfnod hwn.

## Hawl i apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch AAA

Mae gan rieni/gofalwyr a dysgwyr yr un hawl i apelio o hyd. Yn y lle cyntaf, dylai rhieni/gofalwyr geisio datrys pryderon yn uniongyrchol gyda'r ysgol a/neu'r awdurdod lleol. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau

---

[4] Adran 317(1)(a) o Ddeddf Addysg 1996.

partneriaeth rhieni. Mae’r rhain yn rhoi cyngor a gwybodaeth i rieni/gofalwyr mewn perthynas ag AAA. Yn ogystal, mae’n rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau osgoi a datrys anghytundeb a gwasanaethau eirioli annibynnol. Dylai rhieni/gofalwyr wybod am y rhain. Gall rhieni/gofalwyr a dysgwyr sydd â hawl i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) apelio o hyd.

### Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC)

Tribiwnlys annibynnol yw Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC). Mae’n ymdrin ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau penodol am blentyn a pherson ifanc a’i addysg. Mae hefyd yn ymdrin â honiadau o wahaniaethu a thriniaeth annheg mewn ysgol yn ymwneud ag anabledd.

Nid yw swyddogaethau statudol TAAAC wedi cael eu diwygio gan Ddeddf y Coronafeirws 2020.

Y prif amcan yw bod TAAAC yn ymdrin ag apeliadau a honiadau yn deg ac yn gyfiawn.

Mae gan Lywydd y Tribiwnlys bwerau rheoli achosion amrywiol a nodir yn Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012, yn unol â’r prif amcan.

Mae gwefan TAAAC yn cynnwys deunyddiau defnyddiol am eu rôl, gan gynnwys y penderfyniadau y gall eu hystyried, ac ystod o wybodaeth ac adnoddau i rieni/gofalwyr, plant a phobl ifanc, ac awdurdodau lleol.

Mae er budd pennaf plant a phobl ifanc a’u rhieni/gofalwyr bod unrhyw ymholiadau neu anghydfodau mewn perthynas ag AAA yn cael eu datrys yn brydlon ac yn lleol lle y bo’n bosibl, e.e. ar lefel ysgol neu awdurdod lleol. Mae angen i awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau a rhieni/gofalwyr weithio mewn partneriaeth. Cynghorir rhieni/gofalwyr i gysylltu â’u darparwr addysg yn y lle cyntaf.

Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru Gwybodaeth i Rieni a Gofalwyr Plant a Phobl Ifanc y gall fod ganddynt Anghenion Addysgol Arbennig yn cynnwys canllawiau i helpu rhieni a gofalwyr i ddeall y cymorth sydd ar gael iddynt, gan gynnwys rôl gwasanaethau partneriaeth rhieni. Mae’n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddarparu cyngor a gwybodaeth ynghylch materion AAA ar gyfer plant sydd ag AAA a’u rhieni/gofalwyr[5].

### Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Mae awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau, colegau addysg bellach a byrddau iechyd wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith. Nid yw’r system a grëwyd

---

[5] Adran 332AA o Ddeddf Addysg 1996.

gan y Ddeddf mewn grym eto. Bwriedir i'r system a grëwyd gan y Ddeddf ddechrau fesul cam o fis Medi 2021.

## Dysgwyr sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)

### Dychwelyd i addysg

Er y bydd peidio â mynychu eu hysgol neu eu lleoliad yn ystod y cyfyngiadau symud wedi effeithio ar bob dysgwr, mae'n debygol y bydd yr effaith ar ddysgwyr EOTAS wedi bod yn fwy sylweddol oherwydd natur agored i niwed y grŵp hwn o ddysgwyr. Gallai effeithiau gynnwys:

- tarfu ar addysg
- gorbryder yn cynyddu
- mwy o broblemau ymddygiadol.

Caiff y rhain eu trafod yn fanylach isod.

Gallai canlyniadau negyddol eraill fod wedi cynnwys newidiadau i drefn, cwsg a ffordd o fyw, ymddieithrio o ddysgu, colli cymhelliant a/neu golli hyder. Dylai ysgolion a lleoliadau gadw'r rhain mewn cof wrth ystyried pa gymorth sydd ei angen ar ddysgwyr o fis Medi 2020.

Mae darpariaeth EOTAS yn amrywiol ac yn cynnwys addysg academaidd a galwedigaethol, megis TGAU, Gwobrau Cyflawniad Ieuenctid ASDAN a Gwobr Dug Caeredin.

Yn ystod pandemig COVID-19, mae'n bosibl y llwyddodd lleoliadau megis unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion a lleoliadau annibynnol a sefydliadau addysg bellach i ddarparu dysgu a/neu becynnau addysg ar-lein er mwyn i ddysgwyr barhau â'u haddysg. Cafodd rhai mathau o leoliadau EOTAS heriau sylweddol yn sgil COVID-19 wrth geisio darparu adnoddau i ddysgwyr ddysgu gartref, oherwydd natur ymarferol eu haddysg. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd argyfwng COVID-19 wedi tarfu mwy ar addysg rhai dysgwyr EOTAS na'u cyfoedion.

Yn ogystal â'r heriau sy'n gysylltiedig â darparu adnoddau i rai dysgwyr EOTAS er mwyn iddynt barhau â'u haddysg, gallai argyfwng COVID-19 fod wedi tarfu ar addysg drwy beri i ddysgwyr ymddieithrio o addysg neu am nad oedd gan ddysgwyr leoliad addysg yn ystod yr argyfwng. Mae hyn yn arbennig o wir i ddysgwyr a gafodd eu gwahardd ychydig cyn argyfwng COVID-19. Byddai awdurdodau lleol wedi wynebu heriau sylweddol wrth geisio dod o hyd i leoliadau addysg amgen i ddysgwyr yn ystod yr argyfwng ac mae'n debygol y bydd hyn wedi tarfu ar addysg y dysgwyr dan sylw.

### Mynd i'r afael ag achosion o darfu ar addysg

Ym mis Medi 2020, pan fydd lleoliadau yn agor i bob dysgwr, bydd angen i awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr i roi blaenoriaeth i sicrhau bod cynlluniau

ar waith i bob dysgwr EOTAS ailgydio yn ei addysg. Lle mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol, megis addysg yn y cartref, dylai'r awdurdod lleol adolygu cynlluniau dysgu.

Dylai awdurdodau lleol flaenoriaethu dysgwyr nad oedd ganddynt leoliad addysg yn ystod y cyfyngiadau symud am eu bod wedi cael eu gwahardd, er enghraifft, cyn dechrau'r cyfnod. Dylai awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn dod o hyd i leoliadau i'r dysgwyr hyn yn ystod wythnosau cyntaf tymor yr hydref. Dylai'r dysgwyr eu hunain fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, a dylid ystyried eu barn wrth benderfynu ar leoliadau.

### Gorbryder yn cynyddu

Mae'n debygol y bydd y tarfu cymdeithasol ac emosiynol a achoswyd gan y pandemig a'r penderfyniadau dilynol i gau lleoliadau addysg wedi cynyddu neu ddwysáu gorbryder a phroblemau iechyd meddwl eraill. Mae hyn yn arbennig o wir i rai dysgwyr EOTAS na allant fynychu ysgol brif ffrwd oherwydd gorbryder neu broblemau iechyd meddwl. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd dysgwyr EOTAS wedi teimlo'n hapusach gartref yn ystod y cyfyngiadau symud ac yn gyndyn o ddychwelyd i'w lleoliad neu efallai eu bod yn teimlo'n gynyddol bryderus am ddychwelyd i'w lleoliad gan fod yr argyfwng wedi tarfu ar eu presenoldeb a pheri iddynt ddatgysylltu o'u lleoliad.

### Mynd i'r afael â gorbryder

Dylai awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr i roi cynlluniau pontio ar waith ar gyfer dysgwyr EOTAS sy'n teimlo'n bryderus am ddychwelyd i'w lleoliad er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi drwy'r broses ac nad ydynt yn ymddieithrio o addysg. Mae gwasanaethau amrywiol mewn awdurdodau lleol a all gynnig cyngor ar gynlluniau pontio, gan gynnwys y gwasanaeth lles addysg, y gwasanaeth cwnsela, y gwasanaeth ieuenctid, a chydgysylltydd ymgysylltu a datblygu yr awdurdod lleol.

Bydd cyfathrebu a sgwrsio yn hollbwysig wrth gefnogi dysgwyr drwy'r broses bontio. Dylai'r staff annog dysgwyr i drafod eu cwestiynau a'u pryderon. Dylai dysgwyr gydnabod ei bod yn beth arferol iddynt adweithio'n wahanol a dylid eu hannog i siarad â'r staff os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon, yn enwedig o ran COVID-19. Dylai gwybodaeth gael ei rhoi mewn ffordd onest sy'n briodol i oedran y dysgwr.

### Mwy o broblemau ymddygiadol

Mae darpariaeth EOTAS o reidrwydd yn wahanol i addysg brif ffrwd ac, er eu bod yn rhoi sylw i gynnydd addysgol, prif ffocws darparwyr yw helpu plant a phobl ifanc i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n eu hatal rhag manteisio ar addysg brif ffrwd a chymryd rhan mewn addysg, a'u goresgyn. Bydd dysgwyr yn mynychu lleoliadau EOTAS am nifer o resymau, gan gynnwys ymddygiad heriol sy'n gysylltiedig ag, er enghraifft, anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae posibilrwydd y bydd ymddygiad heriol yn cynyddu ymhlith dysgwyr EOTAS oherwydd eu profiadau yn ystod COVID-19. Mae hefyd yn bosibl y bydd angen cymorth pellach ar rai dysgwyr a fu'n gwneud cynnydd gyda'u hymddygiad cyn COVID-19 am eu bod wedi colli'r drefn strwythuredig a'r cymorth a gawsant yn eu lleoliad yn ystod y cyfyngiadau symud. Dylai lleoliadau ystyried diwygio eu polisi ymddygiad er mwyn ystyried effaith COVID-19 ar lesiant ac ymddygiad dysgwyr. Dylid cwblhau asesiadau risg fel y bo'n briodol hefyd.

Efallai y bydd angen i leoliadau roi strategaethau rhagweithiol ar waith i gefnogi dysgwyr, ac addasu ymatebion i ymddygiadau heriol er mwyn ystyried y tarfu a brofwyd ac i roi'r cymorth sydd ei angen ar ddysgwyr er mwyn iddynt ddychwelyd i'r lleoliad. Dylai lleoliadau hefyd weithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau y gall dysgwyr gael gafael ar wasanaethau cymorth iechyd meddwl a chwnsela, fel y bo'n briodol. Efallai y bydd yr astudiaethau achos hyn o fudd i leoliadau wrth ddatblygu trefniadau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

### Dysgwyr o deuluoedd incwm isel

Mae sicrhau bod dysgwyr o deuluoedd incwm isel yn cyflawni eu canlyniadau addysgol gorau wrth wraidd ein system addysg. Defnyddir cymhwysedd am brydau ysgol am ddim fel dangosydd procsi ar gyfer amddifadedd. Rydym wedi gweld rhywfaint o gynnydd pwysig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn cyflawni canlyniadau addysgol gwell.  Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r dysgwyr hyn yn cyflawni eu potensial llawn o hyd. Mae perygl y bydd argyfwng COVID-19 yn dadwneud y cynnydd a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'n bosibl y bydd angen amrywiaeth o gymorth ar ddysgwyr o deuluoedd incwm isel o fis Medi 2020 er mwyn prosesu'r ffaith iddynt beidio â mynychu'r ysgol yn ystod y cyfyngiadau symud, ac adfer o hyn. Gall hyn gynnwys cymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u lles, ynghyd â chymorth ychwanegol gyda'u dysgu.

Gall sicrhau bod dysgwyr o deuluoedd incwm isel yn ailymgysylltu â'u haddysg pan fyddant yn dychwelyd i'w hysgol neu eu lleoliad fod yn her. Dylid ystyried anghenion dysgwyr unigol ar ddechrau tymor yr hydref a dylid rhoi rhaglen gymorth ac ymyrraeth unigol ar waith.

Efallai y bydd angen i ysgolion a lleoliadau ystyried sut y gallant addasu rhaglenni magu plant neu ddysgu fel teulu presennol er mwyn rhoi gwell cymorth i rieni/gofalwyr gefnogi dysgu eu plentyn.

Rhaglen allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi dysgwyr sydd dan anfantais yw'r Grant Datblygu Disgyblion sy'n werth £100 miliwn ar gyfer 2020/21, y ffigur mwyaf erioed. Eleni, bydd ysgolion a lleoliadau wedi cael mwy o hyblygrwydd o ran amodau defnyddio'r grant fel y gellir ei dargedu i fynd i'r afael ag angen lleol yng nghyd-destun COVID-19. Gallai blaenoriaethau gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod ymarferwyr yn cael sesiynau gloywi dysgu proffesiynol ar arferion sy'n ystyriol o drawma a/neu ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod; neu ffocws

ychwanegol ar 'dracio' cynnydd dysgwyr er mwyn helpu'r dysgwr i symud ymlaen i gam nesaf ei ddysgu.

Dylai ysgolion a lleoliadau barhau i ystyried ffyrdd o roi arferion effeithiol ar waith i gefnogi dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, a dylai hyn fod wrth wraidd y gwaith o gynllunio datblygiad ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i argymell y defnyddir Pecyn Cymorth Addysgu a Dysgu y Sefydliad Gwaddol Addysgol (Saesneg yn unig) i gefnogi gwaith cynllunio. Mae'r Sefydliad Gwaddol Addysgol hefyd wedi llunio ystod o adnoddau (Saesneg yn unig) i gefnogi ymarferwyr i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad addysgol, sy'n arbennig o berthnasol i gyd-destun COVID-19.

Mae Estyn hefyd wedi llunio ystod o adroddiadau arferion gorau i gefnogi ysgolion a lleoliadau, gan gynnwys un ar gefnogi dysgwyr sydd dan anfantais ac sy'n agored i niwed.

Cynghorwyr strategol y Grant Datblygu Disgyblion sydd ym mhob consortia rhanbarthol yw'r pwynt cyswllt ar gyfer pob ysgol a lleoliad mewn perthynas â dulliau gweithredu effeithiol a seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cefnogi dysgwyr o deuluoedd incwm isel. Gallant gynnig cymorth ac arweiniad ar y canlynol:

- ymyriadau priodol yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf
- defnyddio dulliau gweithredu ysgol gyfan
- manteision tracio
- cefnogi'r gwaith o werthuso arferion cyfredol
- hwyluso rhwydweithiau cymorth rhanbarthol.

O dan yr amgylchiadau presennol yn fwy nag erioed, gall y cynghorwyr strategol gefnogi ysgolion a lleoliadau i sicrhau eu bod yn defnyddio eu dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion yn y ffordd orau er mwyn cefnogi dysgwyr sydd dan anfantais wrth inni symud ymlaen i'r flwyddyn academaidd newydd.

### Cost y diwrnod ysgol

O ystyried yr amgylchiadau economaidd heriol sy'n wynebu nifer o deuluoedd ar hyn o bryd, a'r tebygolrwydd y bydd hyn yn gwaethygu dros y misoedd nesaf lle rhagwelir y bydd nifer y teuluoedd sy'n cael budd-daliadau yn cynyddu'n sylweddol, mae'n hanfodol bod ysgolion a lleoliadau yn ystyried 'cost y diwrnod ysgol' wrth gynllunio eu busnes craidd a'u gweithgareddau neu eu digwyddiadau.

Mae Plant yng Nghymru wedi llunio cyfres o ganllawiau i ysgolion a lleoliadau yn cwmpasu agweddau allweddol ar fynd i'r afael â chost y diwrnod ysgol, gan gynnwys deall y rhesymau dros fyw mewn tlodi ac effeithiau hyn, bwyd a llwgu a gwisg ysgol.

Dylai ysgolion a lleoliadau fod yn ofalus wrth osod eu polisi gwisg ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 am ei bod yn bosibl na fydd llawer o deuluoedd difreintiedig yn gallu fforddio eitemau ychwanegol o ddillad. Ceir canllawiau pellach ar wisg ysgol yn y Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr

hydref ac yn Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

Mae adnoddau Comisiynydd Plant Cymru yn ffordd ddefnyddiol i ddysgwyr, staff a llywodraethwyr ysgolion a lleoliadau fapio'r costau a allai fod yn anodd i blant a theuluoedd eu fforddio – a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac yn ystod y flwyddyn ysgol. Gall yr adnoddau gefnogi ysgolion a lleoliadau i ddod o hyd i ffyrdd ymarferol o leihau cost y diwrnod ysgol.

### Dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal

Bydd y cyfyngiadau symud wedi bod yn gyfnod anodd i lawer o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi'u mabwysiadu. Oherwydd mesurau'r cyfyngiadau symud, bydd rhai plant ond wedi cael cysylltiad wyneb yn wyneb cyfyngedig â'u teuluoedd geni a'u rhwydwaith cymorth, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol. I rai teuluoedd, bydd y cyfyngiadau symud wedi rhoi pwysau ar leoliadau maeth gan arwain at leoliadau yn methu. I rai plant, bydd y cyfyngiadau symud wedi ei gwneud hi'n anodd iddynt gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a bydd angen ailsefydlu'r cydberthnasau hyn.

Efallai y bydd yr amgylchiadau hyn wedi gwneud i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal deimlo'n unig a chyfrannu at gynnydd mewn problemau trawma ac ymlyniad. Mae llawer o ysgolion a lleoliadau wedi cael hyfforddiant trawma ac ymlyniad sy'n amhrisiadwy wrth gefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn llawn. Ceir rhagor o wybodaeth am drawma ac ymlyniad yn Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref.

Mae'n rhaid i bob ysgol a lleoliad a gynhelir yng Nghymru gael person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd â chyfrifoldeb am hybu cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Yn y bôn, bydd y person dynodedig yn gyfrifol am sicrhau bod anghenion plant sy'n derbyn gofal yn cael eu diwallu yn yr ysgol neu'r lleoliad. Rhan allweddol o'r rôl yw gweithio gyda phobl eraill i sicrhau bod lles plant sy'n derbyn gofal yn cael ei fonitro'n effeithiol a bod eu hanghenion llesiant yn cael eu diwallu.

Dylai fod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal gynllun addysg personol effeithiol a ddylai ddisgrifio beth sydd angen digwydd er mwyn ei helpu i gyflawni ei botensial llawn. Er y cydnabyddir y bydd goblygiadau ymarferol i'r ffordd y caiff cynlluniau addysg personol eu darparu a'u hadolygu yn ystod y cyfnod hwn, dylai'r awdurdod lleol barhau i weithio mewn partneriaeth â'r dysgwr a'r ysgol (yn enwedig y person dynodedig) i ddatblygu ac adolygu'r cynllun yng ngoleuni unrhyw amgylchiadau sydd wedi newid, er mwyn iddo adlewyrchu anghenion y dysgwr yn llawn, cael ei ddiweddaru'n gyson a chael ei roi ar waith. Mae cynlluniau addysg personol ar gael gan gydgysylltydd addysg plant sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol.

Er y bydd llawer o ddysgwyr wedi cael anawsterau yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bwysig nodi y bydd y profiad wedi bod yn un cadarnhaol i rai. Mae'n bosibl y bydd rhai dysgwyr wedi ymgysylltu â'u dysgu yn well drwy fodel dysgu o bell ac mae rhai plant, gan gynnwys dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, wedi ffynnu o safbwynt personol a lles, e.e. o ganlyniad i dreulio mwy o amser gyda'u teuluoedd

neu eu teuluoedd maeth a meithrin ymlyniad diogel. Mae’n rhaid inni gydnabod y profiadau a’r agweddau cadarnhaol, dysgu ohonynt ac adeiladu arnynt. Fodd bynnag, gall profiad cadarnhaol hefyd olygu y bydd rhai dysgwyr yn gyndyn i ddychwelyd i’r ysgol am y rheswm hwn ac efallai y bydd angen cymorth arnynt i oresgyn hyn.

### Gofalwyr ifanc

Mae’n bosibl y bydd gofalwyr ifanc yn bryderus am ddychwelyd i’r ysgol. Efallai y byddant yn poeni am sut y bydd y person maent yn gofalu amdano yn cael ei gefnogi pan fyddant yn yr ysgol. Gallant hefyd fod yn bryderus ynghylch trosglwyddo’r feirws a’r risg o gario’r haint gartref i rieni/gofalwyr, brodyr a chwiorydd neu aelodau eraill o’r teulu sy’n sâl neu sydd ag anghenion gofal a chymorth sy’n eu gwneud yn agored i salwch neu heintiau.

Efallai y bydd eu cyfrifoldebau gofalu wedi cynyddu yn ystod y pandemig; naill ai o ran nifer yr oriau roeddent yn gofalu, y mathau o dasgau roeddent yn eu cwblhau neu nifer y bobl roeddent yn gofalu amdanynt. Gall hyn olygu nad yw gofalwr ifanc wedi gallu ymgysylltu â dysgu gartref yn llawn a’i fod bellach ar ei hôl hi gyda’i astudiaethau a all beri iddo deimlo’n bryderus am ddychwelyd i’r ysgol. Mae’n bosibl hefyd y bydd mwy o gyfrifoldebau gofalu wedi ei gwneud hi’n anodd cadw mewn cysylltiad â ffrindiau neu rwydweithiau cymorth ehangach.

Rydym yn gwybod nad yw llawer o bobl yn dweud bod ganddynt rôl ofalu, neu na fyddant yn dweud wrth staff yr ysgol eu bod yn ofalwr ifanc. Gall ysgolion a lleoliadau helpu gofalwyr ifanc i ddeall eu hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.  Mae hawl gan bob gofalwr ifanc i gael asesiad o anghenion gofalwr. Nid oes rhaid i’r unigolyn maent yn gofalu amdano gael asesiad o anghenion gan yr awdurdod lleol ac anghenion gofal a chymorth a nodwyd er mwyn cynnal yr asesiad hwn. Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllaw byr ar hawliau gofalwyr, gan gydnabod y gall fod angen cymorth ar awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau i wella eu dealltwriaeth o anghenion gofalwyr ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i lunio canllawiau a chynlluniau gwersi, a gaiff eu lansio ym mis Medi 2020. Hefyd, yn 2019, cyhoeddodd Estyn yr adolygiad thematig Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, sefydliadau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru. Gall hwn fod yn ddefnyddiol i ysgolion a lleoliadau wrth gynllunio cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc yn y flwyddyn academaidd newydd.

Dylai gofalwyr ifanc a’u teuluoedd gael eu hannog i drafod pryderon am ddychwelyd i addysg â’u hysgol neu eu lleoliad ac unrhyw asiantaethau eraill sy’n gweithio gyda’r teulu. Gallai dull amlasiantaethol fod yn fuddiol wrth ddod o hyd i ffyrdd o’u cefnogi i ddychwelyd i’r ysgol. Gallai ysgolion a lleoliadau hefyd gynnig gwybodaeth am y cymorth a’r cynlluniau diogelu maent wedi’u rhoi ar waith i ddiogelu eu dysgwyr, a’r cymorth sydd ar waith i helpu gofalwyr ifanc gyda’u hastudiaethau pan fyddant yn dychwelyd i’r ysgol.

Yn fwy cyffredinol, gall gofalwr ifanc gael gafael ar amrywiaeth o wybodaeth a chyngor ar-lein, neu fathau eraill o gymorth, a all gynnwys gwasanaethau awdurdodau lleol i ofalwyr ifanc. Gallant gael gwybodaeth am sut i gael gafael ar y rhain ar wefan eu hawdurdod lleol neu drwy ffonio eu hawdurdod lleol. Mae manylion cyswllt a gwefannau pob awdurdod lleol mewn perthynas â gwasanaethau i ofalwyr a chymorth hefyd ar gael drwy Meic, y gwasanaeth cymorth cenedlaethol i bobl ifanc. Gall gofalwyr ifanc hefyd gael cymorth drwy sefydliadau gofalwyr lleol neu genedlaethol, megis Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru neu Gofalwyr Cymru, neu ganolfan leol i ofalwyr.

### Dysgwyr o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a'r rhai sydd â Chymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol (CIY/SIY)

Efallai y bydd gan ddysgwyr a theuluoedd o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) bryderon am y ffaith eu bod yn fwy agored i COVID-19 a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'u plentyn yn dychwelyd i'r ysgol. Yn benodol, y risg y bydd y dysgwr yn cario'r haint gartref i aelodau o'r teulu a all fod yn agored i salwch neu heintiau.

Os oes gan ddysgwyr Gymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol (CIY/SIY), efallai na fyddant wedi defnyddio eu sgiliau iaith yn ystod y cyfyngiadau symud a gallant fod wedi colli hyder. Gallai hyn arwain at orbryder neu ymddieithrio o'r ysgol.

Mae'n bosibl na fydd gan rieni dysgwyr sydd â CIY/SIY y sgiliau Cymraeg neu Saesneg i gefnogi dysgu o bell eu plant. Gall ymgysylltu â theuluoedd â lefel isel o lythrennedd neu sydd â CIY/SIY achosi heriau penodol. Mae'n bosibl y bydd diffyg mynediad at destun hawdd ei ddarllen neu wybodaeth glywedol wedi gwaethygu'r heriau hyn.

Mae canllawiau i rieni/gofalwyr wedi cael eu cyhoeddi ac maent ar gael mewn amrywiaeth o ieithoedd.

Gall mynediad at ddeunyddiau yn iaith y cartref fod yn broblem. Mae rhai awdurdodau lleol wedi datblygu canllawiau i ysgolion a lleoliadau er mwyn pwysleisio'r rhwystrau y mae dysgwyr sydd â CIY/SIY yn eu hwynebu yn ystod cyfnod mor heriol. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar wefannau addas i hyrwyddo dysgu, cronfeydd o adnoddau i'w lawrlwytho, a chymorth i ysgolion a lleoliadau ar ddefnyddio adnoddau gweledol a chlywedol. Mae'n atgoffa staff o'r pwysigrwydd i annog teuluoedd i ddefnyddio iaith y cartref i ddysgu os nad yw eu sgiliau Cymraeg neu Saesneg wedi datblygu'n dda. Mae enghreifftiau o staff dwyieithog yn gweithio mewn awdurdodau lleol i ddarparu cymorth ac adborth i ddysgwyr yn iaith eu cartref lle y bo angen.

Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr sydd â CIY/SIY gyda'u dysgu ac i loywi eu sgiliau iaith pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol. Mae'n rhaid inni roi tawelwch meddwl i ddysgwyr a'u teuluoedd a rhoi'r hyder iddynt y byddant yn cael yr holl gymorth a chefnogaeth sydd eu hangen arnynt i ddychwelyd i'r ysgol.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae gwasanaethau cyflawniad lleiafrifoedd ethnig awdurdodau lleol wedi bod yn gweithio gydag ysgolion a lleoliadau, dysgwyr a'u teuluoedd i gefnogi dysgwyr a'u teuluoedd a rhannu arferion da ar draws eu hardaloedd awdurdod lleol. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae staff wedi nodi bod galwadau rhwng teuluoedd, ysgolion a lleoliadau a'r gwasanaethau CIY/SIY wedi bod yn fuddiol. Maent wedi helpu i sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn deall sut y gallant gefnogi dysgu eu plant yn y ffordd orau a chael gafael ar adnoddau.

### Dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Mae tystiolaeth anecdotaidd gan ddarparwyr gwasanaethau Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol yn nodi bod lefel uwch o ymddieithrio wedi bod ymhlith y dysgwyr hyn yn ystod y cyfyngiadau symud. Ymhlith y materion a nodwyd mae pryderon am ddod i gysylltiad â'r feirws, diffyg mynediad at ddeunyddiau dysgu a chael cyfarpar digidol a chysylltedd yn hwyr.

Mewn perthynas ag oedi wrth gael gwasanaethau digidol a chysylltedd, ar y cyfan mae awdurdodau lleol wedi gweithio'n galed i ddarparu cyfarpar a mynediad i'r rhyngrwyd i'r grwpiau hyn. Fodd bynnag, mae lleiafrif yn dal i nodi bod ansawdd y cyfarpar TGCh, mynediad i'r rhyngrwyd a chymhwysedd technegol isel rhai dysgwyr a'u teuluoedd yn parhau i fod yn rhwystrau i ddysgu.

I rai teuluoedd, yn enwedig yn y gymuned Teithwyr, mae'n bosibl nad yw technoleg ddigidol yn ddull o ryngweithio a ddewisir. Felly y peth gorau yw cynnwys cymysgedd o gyfryngau sy'n cyd-fynd ag anghenion y dysgwyr a'u teuluoedd. Rydym yn gwybod y darparwyd pecynnau gwaith i ddysgwyr yn ystod y cyfyngiadau symud mewn nifer o achosion.

Mae posibilrwydd hefyd bod lefelau llythrennedd isel ymhlith rhai rhieni/gofalwyr yn golygu na allant gefnogi dysgu eu plentyn. Yn ddiwylliannol, gall fod lefel isel o hyder mewn addysg yn seiliedig ar brofiadau'r rhieni/gofalwyr eu hunain.

Mae meithrin cydberthnasau gwell â'r grwpiau hyn yn allweddol wrth geisio deall pam nad yw addysg yn flaenoriaeth i rai dysgwyr a'u teuluoedd, yn enwedig yn ystod argyfwng COVID-19. Gall fod diffyg cyd-ddealltwriaeth rhwng ysgolion a lleoliadau a theuluoedd a all herio ymgysylltiad a chyrhaeddiad dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys rhwystrau diwylliannol lle nad yw teuluoedd efallai'n deall yr hyn y mae ysgolion a lleoliadau yn ei ddisgwyl, ac efallai nad yw ysgolion a lleoliadau yn deall faint o gymorth y gall fod ei angen ar deuluoedd.

Yn y senarios achos gorau, bydd dull amlasiantaethol sydd wedi'i sefydlu'n dda o gefnogi teuluoedd a dysgwyr unigol yn y grwpiau hyn. Mewn achosion o'r fath, bydd ysgolion a lleoliadau a gwasanaethau cymorth wedi parhau i adeiladu ar gydberthnasau sydd eisoes wedi'u sefydlu'n dda.

Gan ddechrau ym mis Medi 2020, mae'r Fforwm Sipsiwn a Theithwyr – rhwydwaith o ddarparwyr gwasanaethau Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol – yn cynllunio grŵp gorchwyl a gorffen i rannu arferion da a datblygu strategaethau i ail-ennyn diddordeb

dysgwyr a theuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn addysg ar ôl y cyfyngiadau symud.

### Plant sy’n wynebu risg o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod

Bydd amgylchedd cartref a phrofiadau dysgwyr wedi bod yn wahanol yn ystod y cyfyngiadau symud a dylid atgoffa’r holl staff o’u dyletswyddau diogelu yn y canllawiau diogelu statudol ar gyfer lleoliadau addysg Cadw dysgwyr yn ddiogel ac o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru.

Bydd rôl y person diogelu dynodedig yn hollbwysig a dylai’r holl staff a dysgwyr gael gwybod pwy yw’r person diogelu dynodedig a sut mae cysylltu â nhw. Bydd ymdrechion i leihau cysylltiadau yn golygu ei bod hi’n anoddach cael gafael ar oedolyn y mae rhywun yn ymddiried ynddo, neu’r person diogelu dynodedig, felly dylai ysgolion a lleoliadau ystyried sut gall dysgwyr siarad yn breifat. Mae canllawiau i leoliadau addysg ar gael.

Yn ystod y camau cynnar, dylai ysgolion, lleoliadau a gwasanaethau plant barhau i gydweithio’n agos i sicrhau bod pob plentyn a theulu yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen. Bydd gan awdurdodau lleol amrywiaeth o arferion gwaith mewn lle i sicrhau bod partneriaid diogelu yn gallu cydweithio i gadw dysgwyr yn ddiogel. Mae cyfle nawr i gyfnerthu’r arferion gwaith hyn ymhellach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau i atgoffa ymarferwyr sy’n gweithio ar draws asiantaethau o’u cyfrifoldebau i ddiogelu dysgwyr a’u cefnogi i ymateb i bryderon am ddysgwyr sydd mewn perygl. Mae’r canllaw hwn yn gysylltiedig â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a dylid ei ddefnyddio gyda nhw.

## Paratoi ar gyfer cyfyngiadau symud pellach neu ddull dysgu cyfunol

Mae cryn ansicrwydd yn wynebu'r system addysg wrth inni baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae hawl y CCUHP i addysg yn berthnasol yn ddieithriad, ni waeth beth yw'r senario neu'r rhwystrau i ddysgu sy'n wynebu unigolion. Ni fydd rhagor o gyfyngiadau symud, na chyfnod arall o ddysgu cyfunol yn rhyddhau awdurdodau lleol o'u dyletswydd i ddarparu addysg addas. Fodd bynnag, cydnabyddir efallai y bydd angen gweithredu'r ddyletswydd yn wahanol i rai dysgwyr am gyfnodau.

Dylai awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau addysg flaenoriaethu paratoi ar gyfer cyfyngiadau symud cenedlaethol neu leol pellach posibl er mwyn ceisio sicrhau eu bod yn tarfu cyn lleied â phosibl ar ddysgu grwpiau sy'n agored i niwed a dan anfantais.

Darparodd nifer o ysgolion a lleoliadau, gan gynnwys ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion, wasanaeth gwerthfawr i blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol yn ystod y cyfyngiadau symud.

Fel rhan o'u gwaith cynllunio, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol fynd ati i ystyried sut y byddant yn parhau i ddarparu addysg a chymorth ehangach i ddysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais os caiff cyfyngiadau symud eu rhoi ar waith yn lleol neu'n genedlaethol yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys cadw ysgolion a lleoliadau ar agor. Fel rhan o'r gwaith cynllunio hwn, bydd angen i awdurdodau lleol ystyried y ffordd orau o ddefnyddio adnoddau mewn modd creadigol a hyblyg er mwyn diwallu anghenion dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais, a'u teuluoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen i unrhyw ymateb o'r fath fod yn seiliedig ar gyngor iechyd y cyhoedd priodol.

Wrth gynllunio trefniadau ar gyfer cyfyngiadau symud posibl yn y dyfodol, dylai awdurdodau lleol fyfyrio ar y trefniadau a roddwyd ar waith yn ystod y cyfyngiadau symud blaenorol, gan gynnwys cryfderau a meysydd i'w gwella, ac adborth a gafwyd gan rieni/gofalwyr a dysgwyr. Gall ffynonellau adborth a gwybodaeth eraill fod ar gael hefyd, e.e. gan Estyn a Chomisiynydd Plant Cymru.

Mae'r Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref yn nodi disgwyliadau mewn perthynas â chyswllt â dysgwyr a hyd dysgu os bydd cyfyngiadau symud yn y dyfodol neu os caiff rhyw fath o ddull dysgu cyfunol ei roi ar waith. Mae'r canlynol yn glir:

- dylid cysylltu'n rheolaidd â'r holl ddysgwyr i 'ailgydio' – byddai hyn yn gyfle i holi ynghylch diogelwch a lles y dysgwr yn ogystal â thrafod eu profiad dysgu ac ystyried cefnogaeth ychwanegol bosibl
- dylai'r holl ddysgwyr gael yr un cyfnod dysgu ag y byddent wedi'i gael petaent yn yr ysgol neu'r lleoliad, hyd yn oed os yw rhywfaint o'r dysgu'n cael ei wneud

gartref neu mewn man arall. Bydd eithriadau i weithredu'r disgwyliad hwn, fodd bynnag, dyma fydd y man cychwyn i bob dysgwr.

Bydd sefyllfa iechyd y cyhoedd yn parhau i gael ei monitro'n ofalus dros y misoedd nesaf a pharheir i adolygu'r canllawiau hyn. Darperir canllawiau ychwanegol, pellach os bydd angen.

## Sicrhau parhad dysgu

Disgwylir i ysgolion a lleoliadau gynllunio ar gyfer nifer o senarios ym mlwyddyn academaidd 2020/21. Diben hyn yw cynnwys unrhyw sefyllfa yn y dyfodol lle caiff cyfyngiadau symud eu rhoi ar waith eto. Mae'n rhaid ystyried anghenion dysgu a lles dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais yn llawn fel rhan o'r broses gynllunio honno.

Mae awdurdodau lleol, ysgolion, lleoliadau ac asiantaethau partner wedi dangos cydnerthedd arbennig hyd yn hyn. Rydym wedi gweld nifer o enghreifftiau o ffyrdd creadigol a hyblyg o weithio  Bydd awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau wedi nodi agweddau ar eu dulliau gweithredu sydd wedi gweithio'n dda a rhai y gall fod angen eu mireinio.

Mae'r Gweinidog Addysg yn glir mai'r flaenoriaeth ar gyfer yr holl leoliadau addysg, wrth iddynt gynyddu eu gweithrediadau a pharatoi i groesawu dysgwyr ym mis Medi 2020, yw lles eu dysgwyr.

Cyhoeddodd Estyn gyfres o adroddiadau yn ddiweddar sy'n cynnig trosolwg cryno o'r ffyrdd y mae lleoliadau addysg wedi cefnogi lles a dysgu dysgwyr. Mae adroddiadau ar wahân ar gael ar ddulliau gweithredu gan ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.

Yn ogystal, mae'r adroddiad Cipolygon ar sut mae ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol wedi ymateb yn ystod pandemig COVID–19 yn tynnu sylw at y dulliau a ddefnyddiwyd gan y sector amrywiol hwn i gefnogi dysgwyr yn ystod y pandemig. Mae adroddiad Estyn yn cynnwys disgrifiadau o'r gwaith a wnaed mewn perthynas ag addasu dysgu, cefnogi prosesau pontio, datblygu sgiliau dysgwyr a sefydlu arferion er mwyn helpu i leihau gorbryder.

Mae'r cyhoeddiadau uchod yn cyd-fynd ag adroddiad Estyn Gwydnwch dysgwyr - meithrin gwydnwch mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion. Mae'r adroddiad yn cydnabod y rôl hanfodol sydd gan ysgolion a lleoliadau o ran cefnogi iechyd meddwl a meithrin gwydnwch plant a phobl ifanc. Gall yr adroddiad helpu darparwyr addysg i ystyried dulliau perthnasol.

Mae'r Sefydliad Gwaddol Addysgol wedi llunio canllawiau ar Anghenion Addysgol Arbennig mewn Ysgolion Prif Ffrwd (Saesneg yn unig). Mae'r canllawiau yn cyd-fynd yn dda â dyhead Llywodraeth Cymru i gael addysg gynhwysol ac Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21. Mae'r adroddiad yn nodi'n glir mai dysgwyr sydd ag AAA sydd â'r angen mwyaf am addysgu ardderchog

a bod hawl ganddynt i gael darpariaeth sy’n eu cefnogi i gyflawni a mwynhau yn yr ysgol.

Mae’r canllawiau yn cynnig deunyddiau defnyddiol ar ymgysylltu â rhieni/gofalwyr, camsyniadau am AAA, addysg o ansawdd uchel, a chynllunio ar gyfer anghenion sy’n gorgyffwrdd.

Dylai awdurdodau lleol ystyried pa gymorth sydd ei angen ar ysgolion a lleoliadau er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sy’n wynebu rhwystrau sylweddol yn parhau i ddysgu. Gall hyn fod yn angenrheidiol, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod amcanion dysgu mewn cynlluniau statudol neu gynlluniau addysg eraill yn cael eu bodloni, e.e. datganiadau AAA, cynlluniau addysg unigol neu gynlluniau addysg personol. Gall staff arbenigol mewn awdurdodau lleol fod mewn sefyllfa dda i nodi unrhyw fylchau a rhoi cyngor i ysgolion a lleoliadau ar ffyrdd o addasu eu dull gweithredu, gan gynnwys adnoddau i ddiwallu anghenion dysgu yn well.

Dylai awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau ymgysylltu â rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau parhad dysgu. Gellir defnyddio’r wybodaeth a gesglir o’r gwaith ymgysylltu hwn mewn trafodaethau rhwng yr awdurdod lleol, yr ysgol neu’r lleoliad, a staff o asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod y gwaith a osodir a’r cymorth a ddarperir yn diwallu anghenion dysgwyr.

Mae’n rhaid i ysgolion a lleoliadau sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau dysgu yn briodol i anghenion dysgwyr. Mae’n rhaid iddynt ddefnyddio eu gwybodaeth fanwl am ddysgwyr i ddarparu gweithgareddau a phrofiadau dysgu i ddysgwyr sydd o ansawdd uchel ac wedi’u gwahaniaethu. Mae’n rhaid i ysgolion a lleoliadau ystyried yn ofalus pa mor briodol yw gweithgareddau dysgu o bell neu weithgareddau dysgu cyfunol hefyd. Dylid darparu cymorth ychwanegol er mwyn galluogi mynediad at ddysgu. Gall opsiynau amgen gynnwys ysgolion a lleoliadau yn darparu deunyddiau drwy e-bost, drwy’r post neu drwy eu dosbarthu â llaw. Fodd bynnag, gallai dull amlasiantaethol fod yn ofynnol er mwyn cefnogi rhai unigolion i barhau i ddysgu.

Yn ogystal, dylai awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau adolygu argaeledd technoleg, cyfarpar ac adnoddau eraill a all gefnogi dysgwyr gyda dysgu gartref neu mewn mannau eraill.

Bydd y sesiynau ‘ailgydio, dal i fyny a pharatoi’ wedi helpu ysgolion a lleoliadau i fwrw golwg dros unrhyw broblemau argaeledd heb eu datrys sydd gan eu dysgwyr, gan gynnwys mynediad at adnoddau digidol. Mae cymorth ar gael drwy awdurdodau lleol, gan gynnwys £3 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, er mwyn mynd i’r afael yn benodol â’r broblem o gael gafael ar galedwedd a/neu gysylltu â’r rhyngrwyd. Rydym yn ymwybodol bod awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau wedi gwneud ymdrechion sylweddol i ddiwallu’r anghenion hyn. Rydym yn disgwyl y bydd unrhyw broblemau mynediad o’r fath yn cael eu datrys yn gyflym wrth inni symud tuag at weithredu’n llawn ac y bydd gan bob dysgwr gymorth llawn a theg ar gyfer dysgu yn yr hydref.

Mae’n bosibl y bydd gan rai dysgwyr fynediad at gyfarpar arbenigol, teganau ac adnoddau eraill fel arfer. Dylai awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau ddefnyddio eu

gwybodaeth fanwl am ddysgwyr a chynllunio i sicrhau na fydd dysgwyr dan anfantais os byddant yn dychwelyd i'r ysgol yn rhan-amser neu'n amser llawn, neu yn ystod unrhyw gyfyngiadau symud yn y dyfodol. Gall staff arbenigol gydlynu hyn a darparu cymorth parhaus i ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr.

## Gweithio amlasiantaethol

Ni ellir anghofio am bwysigrwydd gweithio amlasiantaethol a gweithio mewn partneriaeth yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n arbennig o wir o ran darparu cymorth effeithiol i ddysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais, e.e. lle gall fod rôl i wasanaethau gofal cymdeithasol neu wasanaethau arbenigol gefnogi'r dysgwr.

Bydd angen ffyrdd arloesol o sicrhau gweithio amlasiantaethol os bydd cyfyngiadau symud yn cael eu rhoi ar waith unwaith eto. Gwelwyd hyn yn ystod y cyfnod diweddar pan oedd ysgolion a lleoliadau ar gau i'r rhan fwyaf o ddysgwyr, e.e. gyda chyfarfodydd amlasiantaethol a chymorth i ddysgwyr yn cael eu darparu ar-lein, a bydd angen adeiladu ar hyn os caiff cyfnod arall o gyfyngiadau symud ei roi ar waith.

O ganlyniad i COVID-19, mae'n bosibl y bydd ymarferwyr iechyd wedi cael eu hadleoli i feysydd gwaith eraill o fewn y bwrdd iechyd a gallai hyn fod yn nodwedd amlycach os bydd cyfraddau trosglwyddo yn cynyddu'n sylweddol yn y dyfodol. Lle bynnag y bo modd, dylid cadw mewn cysylltiad ag awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau, a dysgwyr a dylid trafod trefniadau cymorth amgen a chytuno arnynt fel y bo'n briodol.

## Proses asesu statudol/adolygu blynyddol

Lle bynnag y bo modd, gwnaeth swyddogion awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau, a phartneriaid amlasiantaethol barhau i gynnal y broses asesu statudol ac adolygu blynyddol ar gyfer AAA o bell yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd hyn yn cynnwys gwaith paneli anghenion addysgol arbennig awdurdodau lleol. Cynhaliodd seicolegwyr addysg ac eraill, pan oeddent yn gallu, asesiadau ac ymgyngoriadau ar-lein. Cydnabyddir na fydd hyn bob amser yn bosibl gan fod angen cysylltiad wyneb yn wyneb neu ddefnyddio cyfarpar arbenigol mewn rhai asesiadau neu ymgyngoriadau. Bu swyddogion arbenigol awdurdodau lleol yn gweithio o bell er mwyn darparu cyngor, cymorth ac arweiniad i ysgolion a lleoliadau, dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr, e.e. bu swyddogion symudedd yn cydweithio â staff ysgolion i nodi addasiadau angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion dysgwyr.

Lle mae'n ofynnol cynnal cyfarfodydd mewn perthynas ag AAA, neu rwystrau eraill i ddysgu, yn unol â deddfwriaeth, nid oes rhaid eu cynnal wyneb yn wyneb. Dylai'r bobl hynny sy'n gyfrifol am drefnu cyfarfodydd ystyried ffyrdd eraill o'u cynnal, e.e. drwy dechnoleg rithwir. Ond wrth wneud hynny, bydd angen iddynt ystyried pa mor bwysig yw sicrhau bod y rhieni/gofalwyr a, lle y bo'n briodol, y dysgwr, yn gallu cymryd rhan yn ystyrlon. Dylid holi eu barn ar sut yr hoffent i gyfarfodydd gael eu cynnal, ac ystyried hyn wrth drefnu.

Efallai y bydd ysgolion, lleoliadau, awdurdodau lleol a'u partneriaid am ystyried a ellid mabwysiadu elfennau o'r addasiadau a'r mesurau arloesol hyn yn gyffredinol fel rhan o arferion gwaith safonol. Mewn unrhyw achos, bydd angen rhoi'r mathau hyn o addasiadau ar waith unwaith eto os caiff cyfyngiadau symud pellach eu rhoi ar waith.

Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys y tu hwnt i AAA. Dylid hefyd eu hystyried, er enghraifft, yng nghyd-destun cynlluniau gofal a chymorth a/neu gynlluniau addysg personol.

## Gweithio gyda rhieni/gofalwyr

Bydd parhau i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd yn hanfodol os bydd cyfyngiadau symud pellach. Efallai y byddai'n briodol clustnodi cyfrifoldeb i aelodau unigol o staff dros sicrhau y cedwir mewn cysylltiad â rhieni/gofalwyr. Dylai awdurdodau lleol a/neu ysgolion a lleoliadau gadw mewn cysylltiad drwy alwadau ffôn, negeseuon e-bost, llythyrau a/neu gyfarfodydd ar-lein. Dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried sefydlu llinellau cymorth dynodedig ar gyfer rhieni/gofalwyr. Mewn rhai sefyllfaoedd, a phan fyddant yn unol ag amgylchiadau arferol, efallai y byddai'n briodol i staff ddosbarthu adnoddau dysgu a chyfarpar a chadw mewn cysylltiad drwy gynnal ymweliadau diogel â'r cartref, gan gadw pellter cymdeithasol.

Yn ystod y cyfyngiadau symud blaenorol, cynhyrchodd rhai awdurdodau lleol a/neu grwpiau partneriaeth rhieni becynnau gwybodaeth neu adnoddau pwrpasol i rieni/gofalwyr. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys cefnogi rhieni/gofalwyr i ddatblygu dealltwriaeth eu plentyn o'r sefyllfa bresennol, sefydlu arferion, lleihau gorbryder a'u cefnogi i ddychwelyd i'r ysgol. Darparodd rhai awdurdodau lleol y rhain yn uniongyrchol i rieni/gofalwyr a'u rhoi ar-lein, gan gynnwys eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'n bosibl bod ysgolion a lleoliadau wedi creu teithiau tywys rhithwir a'u rhannu ar-lein er mwyn helpu gyda'r broses bontio.

Darparodd llawer o sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, wybodaeth ac adnoddau ar eu gwefannau. Mae Anabledd Dysgu Cymru, er enghraifft, wedi cynhyrchu ystod o ddeunyddiau hawdd eu darllen ar COVID-19, gan gynnwys rhai ar les ac iechyd meddwl.

Mae cyfoeth o wybodaeth ac adnoddau ar gael ar Hwb hefyd, a all fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr wrth ymgysylltu â rhieni/gofalwyr os bydd cyfnod arall o gyfyngiadau symud.

# Atodiad: Recriwtio, adfer a chodi safonau – y rhaglen dysgu carlam

## Cyd-destun

Yn ystod yr argyfwng, daeth yn glir bod nifer o ddysgwyr wedi dioddef effeithiau negyddol o ran eu cynnydd wrth ddysgu, gyda rhai ohonynt yn dioddef yn ddifrifol. Mae tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau dibynadwy, gan gynnwys rhai sy'n canolbwyntio ar Gymru, yn awgrymu bod yr argyfwng wedi effeithio ar y rhan fwyaf o ddysgwyr, neu bob un ohonynt, gan effeithio fwyaf ar y rhai mwyaf agored i niwed.

## Carfanau yr effeithiwyd arnynt

Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos mai'r carfanau yr effeithiwyd arnynt fwyaf yw:

- dysgwyr sy'n paratoi ar gyfer arholiadau cenedlaethol yn ystod y flwyddyn academaidd sydd i ddod
- plant sy'n agored i niwed a dan anfantais
- Blwyddyn 7
- dosbarthiadau Derbyn
- pob dysgwr arall.

Mae'r crynodeb hwn yn unol â chanfyddiadau nifer o wledydd a thiriogaethau eraill sydd â nodweddion tebyg i Gymru, a bydd yn nodi'r grwpiau blaenoriaeth y disgwyliwn i'r gwaith rydym yn ei wneud fynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, dylem nodi y bydd angen cymorth ar unigolion nad ydynt yn y grwpiau hyn.

## Y buddsoddiad

Ein hymateb i'r sefyllfa hon yw dyrannu adnoddau ariannol ar gyfer creu capasiti newydd yn y system. Bydd y buddsoddiad yn werth bron £29 miliwn rhwng mis Medi 2020 a mis Awst 2021, a bydd yn ddigon i gynyddu capasiti gydag oddeutu 600 o athrawon a 300 o gynorthwywyr addysgu ychwanegol. Yn ogystal â hyn, byddwn yn defnyddio ein buddsoddiad presennol mewn dysgu proffesiynol, seilwaith digidol, cysylltedd, dyfeisiau a chynnwys i gyfoethogi'r profiadau a ddarperir gan ysgolion a lleoliadau i ddysgwyr.

## Cwricwlwm ar gyfer y rhaglen dysgu carlam

Diwygio'r cwricwlwm yw ein blaenoriaeth ganolog ar gyfer addysg yng Nghymru o hyd. Mae'n hanfodol bod ein holl waith gyda'r system addysg yng nghyd-destun COVID-19 yn cyd-fynd ag arferion gorau rhyngwladol, sydd hefyd yn sail i'n cynigion diwygio'r cwricwlwm. Dros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol fel rhan o gwricwlwm eang a chytbwys
- datblygu sgiliau dysgu annibynnol

- cefnogi ac ymgysylltu drwy hyfforddi.

Bydd y ffocws hwn yn arbennig o berthnasol i’r carfanau cynradd. Byddwn yn gweithio’n agos gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau bod ein dull gweithredu o ran y cwricwlwm a’r dysgu yn hyrwyddo ac yn cyd-fynd â hygrededd a dilysrwydd cyfres arholiadau 2021.

## Fframwaith cenedlaethol, gwireddu lleol

Ni fyddwn yn gosod fformiwla gaeth ar gyfer sut mae ymateb i’r sefyllfa ar lefel leol, ond byddwn yn rhoi fframwaith a chanllawiau y bydd ysgolion a lleoliadau, awdurdodau lleol a rhanbarthau’n gallu eu defnyddio wrth ddatblygu’r cynlluniau, y dulliau a’r atebion sydd eu hangen ar eu cymunedau lleol a’u pobl ifanc.